



Coleg Catholig Dewi
Sant

Adroddiad a'r Datganiadau
Ariannol am y flwyddyn yn
gorffen 31 Gorffennaf
2021



CYNNWYS

	Rhif Tudalen
Cyfeiriadau a Manylion Gweinyddol	1
Adroddiad y Corff Llywodraethol	2
Datganiad Llywodraethu Corfforedig a Rheolaeth Fewnol	12
Datganiad Rheoleidd-dra, Priodoldeb, a Chydymffurfio'r Coleg	19
Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau'r Corff Llywodraethol	20
Adroddiad Archwilydd Annibynnol i Gorff Llywodraethol Coleg Dewi Sant	22
Barn ar faterion eraill a ragnodir yng Nghod Ymarfer Archwiliad Addysg Bellach 2015 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru	
Datganiad o Incwm a Gwariant Cymhwysfawr	25
Datganiad o Newidiau yn y Cronfeydd wrth gefn	26
Mantolen ar 31 Gorffennaf	27
Datganiad o Lif Arian	27
Nodiadau ar gyfer y Cyfrifon	30-47

Coleg Catholig Dewi Sant

Cyfeiriadau a Manylion Gweinyddol

Bwrdd Llywodraethwyr

Ceir rhestr lawn o'r Llywodraethwyr ar dudalen 12-14 o'r datganiadau ariannol hyn.

Clerc i'r Llywodraethwyr – Georgia Brown

Personél Allweddol Rheoli

Mark Leighfield – Pennaeth; Swyddog Cyfrifyddu

Lisa Newman – Dirprwy Bennaeth

Swyddfa Gofrestredig

Coleg Catholig Dewi Sant

Heol Ty Gwyn

Penylan

Caerdydd

CF23 5QD

Ymgynghorwyr Proffesiynol

Archwilwyr Datganiadau ariannol a'r Cyfrifyddion sy'n adrodd:

Mazars LLP

90 Heol Victoria

Bryste

BS1 6DP

Archwilwyr Mewnol:

RSM Risk Assurance Services LLP

The Pinnacle

170 Midsummer Boulevard

Milton Keynes

Buckinghamshire

MK9 1BP

Bancwyr:

Banc Corfforaethol Barclays plc

3ydd Llawr

Llys Windsor

3 Lle Windsor

Caerdydd

CF10 3BX

Canolfan Fancio Corfforaethol Santander

Llawr 1af

9 Heol y Frenhines

Caerdydd

CF10 2UD

Cyfreithwyr:

Eversheds Sutherland (Rhyngwladol) LLP

1 Maes Callaghan

Caerdydd

CF10 5BT

Coleg Catholig Dewi Sant

Adroddiad y Corff Llywodraethol

NODAU A STRATEGAETH:

Isod, mae aelodau'r Corff Llywodraethol yn cyflwyno'u hadroddiad a'r datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2021.

Statws Cyfreithiol

Sefydlwyd y Coleg o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 at ddiben cynnal Coleg Catholig Dewi Sant. Mae'r Coleg yn elusen wedi'i eithrio at ddibenion Rhan 3 o'r Ddeddf Elusennau 2011. Sefydlwyd y Corff Llywodraethol yng Nghymru.

Cenhadaeth

Mae Coleg Catholig Dewi Sant yn gymuned unigryw sy'n tystio i'n gwerthoedd a'n cred Gatholig. Mae gan y Coleg rhan annatod yng nghenhadaeth gyffredinol yr Eglwys sy'n bodoli i achub eneidiau drwy bregethu a byw'r Efengyl, Newyddion Da Iesu Grist. Fel coleg, ein nod cyffredinol ydy arwain aelodau'n cymuned yn agosach at Dduw. Ceisia'r Coleg gyflawni hyn drwy gynnig y cyfle am addysg Gatholig i bawb, yn enwedig i'r tlawd a'r rhai sydd ar ymylon cymdeithas.

Dyma restr o'n hegwyddorion arweiniol:

- Canologrwydd ein Ffydd Gatholig
- Cydnabod gwerth cynhenid ac unigrywiaeth pob unigolyn, ni waeth fo'i r(h)ywedd, ethnigrywdd, na'i g/chred grefyddol
- Gwireddu potensial llawn pob unigolyn
- Cynhwysiant
- Didwylledd
- Unplygrwydd
- Edifeirwch
- Tosturi
- Maddeuant

Ysbryd yr Efengyl sydd wrth wraidd ein ffordd o fyw, ein perthynas ag eraill, a'n cymuned. Mae gennym gonsyrn am yr unigolyn yn gyfan gwbl, ac ymdrechem i gyrraedd disgwyliadau uchaf yn Nhwf a chyflawniad personol.

Datganiad cenhadaeth y Coleg ydy:

Coleg Catholig i'r gymuned, sy'n ceisio darganfod a gwireddu potensial llawn pawb mewn awyrgylch o gariad, gwasanaeth, a pharch a symbylwyd gan Grist.

Lles y Cyhoedd

Mae Coleg Catholig Dewi Sant yn elusen eithriedig o dan Ran 3 o Ddeddf Elusennau 2011, a chaiff ei reoleiddio gan Lywodraeth Cymru. Ceir rhestr o aelodau'r Corff Llywodraethol, sy'n ymddiriedolwyr yr elusen, ar dudalen 12-14.

Wrth osod ac adolygu amcanion strategol y Coleg, mae'r Bwrdd Llywodraethol wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau Comisiwn Elusennau ar les y cyhoedd ac yn enwedig ar ei ganllawiau atodol ar symud addysg yn ei blaen. Mae'r sefydlu'r angen y mae rhaid i bob sefydliad sydd am gael eu cydnabod yn elusennau ei ddiwallu'n glir er mwyn dangos bod eu hamcanion er budd y cyhoedd.

Coleg Catholig Dewi Sant

Wrth gyflenwi ei genhadaeth, mae'r coleg yn darparu'r buddion cyhoeddus canfyddadwy canlynol drwy yrru addysg yn ei blaen:

1. Addysgu o'r ansawdd uchaf,
2. Ehangu cyfranogiad a delio ag eithrio cymdeithasol,
3. Record ragorol o gyflogaeth i fyfyrwyr,
4. Systemau cymorth cadarn ar gyfer myfyrwyr
5. Cysylltiadau gyda chyflogwyr, diwydiant a masnach.

Gweithredu cynllun strategol

Mae cynllun strategol y coleg, "Y Ffordd, y Gwirionedd, a'r Bywyd" yn delio â'r cyfnod rhwng Awst 2021 hyd at Orffennaf 2025. Mae tair thema allweddol wrth wraidd ein cynllun strategol:

- **Y Ffordd: Arweinyddiaeth a Dilynyddiaeth**
- **Y Gwirionedd: Addysgu'r person yn ei gyfanrwydd**
- **Y Bywyd: Dyfodol Cynaliadwy**

Mae'r Corff Llywodraethol yn monitro perfformiad y Coleg yn erbyn y cynlluniau hyn. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu a'u diweddarau pob blwyddyn. Gwnaeth blaenoriaethau'r Coleg ar gyfer 2020-21 gynnwys:

Rydym wedi'n hymrwymo i ymdrechu am ragoriaeth yn ein haddysgu, dysgu, a'n canlyniadau. Sicrhawn y bydd pob asesiad a wnawn yn ddilys, dibynadwy, teg, effeithlon, agored a thryloyw, ac yn rhan annatod o'n dull addysgu fel coleg.

Mae Coleg Catholig Dewi Sant yn hollol gefnogol i'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Sicrhawn y bydd y ddarpariaeth yn:

§ cwrdd ag anghenion pobl ifanc;

§ cynorthwyo â chynnal gwell ymgysylltiad;

§ cryfhau sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd ar gyfer cyflogaeth;

§ sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc; a fydd yn y pen draw yn

§ chwarae rôl bwysig wrth geisio lleihau'r niferoedd o bobl ifanc rhwng 16-18 oed a ystyrir hwy'n NEET yn y dalgylch.

Fe fyddwn ni'n parhau i ddatblygu'r cymhwyster Bagloriaeth Cymru, gan sicrhau y caiff themâu a gwerthoedd Catholig eu mewnosod iddo, er mwyn ei drawsnewid i fod yn 'Fagloriaeth Gatholig'.

Yng Ngholeg Dewi Sant, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'n defnydd o dechnoleg ddigidol, gyda'r nod o gyfoethogi'r profiadau dysgu a gaiff ein dysgwyr.

Fe fyddwn ni'n rhoi mwy o bwyslais ar ddarparu cyfleoedd i bobl ddod o hyd i'r Efengyl o fewn cyd-destun cyrsiau'r cwricwlwm, pan fo'r rheini'n berthnasol.

Fe barhawn i ddarparu cyngor a chymorth UCAS i ddysgwyr fel eu bônt yn ymwybodol o'r opsiynau helaeth ar gyfer dilyniant i'r brifysgol sydd ar gael. Sicrhawn y caiff cyfleoedd cyflogaeth, yn enwedig Prentisiaethau Gradd, eu hysbysebu i ddysgwyr Lefel 3 mewn modd sy'n rhoi statws cydradd i'r cyfleoedd hynny.

Coleg Catholig Dewi Sant

Fe wnawn ni gyd-weithio gyda'n dysgwyr Lefel 2 i sicrhau y rhoddir cyngor a chefnogaeth ddilyniant gyrfaol perthnasol iddynt. Fe gaiff llwybrau dilyniant i gyrsiau Lefel 3, cyflogaeth, a hyfforddiant eu hysbysebu a'u cynnig iddynt.

Mae Coleg Dewi Sant wedi'i ymrwymo'n llwyr i gau'r bwlch mewn addysg, p'un ai bod yn seiliedig ar ryw, dosbarth cymdeithasol, neu ethnigrwydd. Parha'r Coleg i ddefnyddio'i strategaethau gwella ansawdd er mwyn nodi'r grwpiau hynny sy'n tangyflawni.

Bydd Coleg Dewi Sant hefyd yn darparu cefnogaeth fugeiliol o'r safon uchaf i bob dysgwr a arweinir gan dîm o diwtoriaid bugeiliol a staff cefnogi dysgwyr.

Mewn ymateb i'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (2018), fe wnaiff Coleg Dewi Sant sicrhau y cefnogir pob dysgwr ADY yn y coleg er mwyn goresgyn y rhwystrau i'w haddysg a gwireddu eu potensial llawn.

Bydd y Coleg yn hyrwyddo lles a gwydnwch pob dysgwr drwy weithredu'i Fframwaith Lles.

Mae gan Goleg Dewi Sant dîm diogelu, sy'n cyd-weithio ag asiantaethau allanol, â'i fwriad yw creu amgylchedd diogel ar gyfer dysgwyr gan weithredu'n ddi-oed i unrhyw broblem diogelu a adroddwyd gan randdeiliaid.

Parha'r Rhaglen Anrhydedd a gawn yma yng Ngholeg Dewi Sant i ddarparu rhaglen fugeiliol sydd wedi'i theilwra ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog.

Trwy ein Rhaglen Fyfyrdod Ysbrydol, rydym yn gwahodd ein pobl ifanc i fynd i'r afael â ffydd yn hytrach na derbyn y traddodiad sy'n cael ei gyflwyno iddynt. Rydym yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr archwilio'r berthynas rhwng rheswm a ffydd, a thrwy hynny, ceisio arwain ein dysgwyr yn agosach tuag at y Gwirionedd.

Bydd dysgwyr yn parhau i fyfrio ar yr alwad i helpu'r tlawd a'r rhai ar y cyrion trwy'r prosiectau 'ffydd ar waith' sy'n rhan o'r Rhaglen 'Crefydd a Bywyd'. Mae'r prosiectau hyn yn cynnig y cyfle i ddysgwyr ymdrin â materion yn y gymdeithas ehangach, ar raddfa leol ac ar raddfa fyd-eang.

Mae'r 'Gymdeithas y Catholigion a Chyfeillion' yn parhau i chwarae rôl allweddol yng Ngholeg Dewi Sant wrth hyrwyddo ethos a hunaniaeth Gatholig ein cymuned.

Mae Coleg Catholig Dewi Sant yn anelu i fod yn goleg sy'n hollol ddwyieithog. Fel rhan o'i gyfraniad i ddiwylliant a'r gymdeithas yng Nghymru, fe wnaiff Goleg Dewi Sant integreiddio a dathlu'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd o'i gwricwlwm a'i fywyd colegol, trwy'i staff a'i ddysgwyr.

Un agwedd allweddol o'n Fframwaith Brofiad Myfyrwyr yma yng Ngholeg Dewi Sant yw llais y dysgwr. Rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr lleisio eu barn trwy'r system gynrychiolwyr myfyriwr.

Mae Coleg Catholig Dewi Sant yn bwriadu gweithio'n fwy agos â'r plwyfi.

Nodau Ariannol

Mae Strategaeth Gyllidol a Buddsoddiad y Coleg yn delio â'r cyfnodau 2018/19, 2019/2020 a 2020/2021. Nodau ariannol y Coleg ydy:

1. Cyflawni sicrwydd cyllidol hirdymor a chydweddu adnoddau gyda Themâu Allweddol y Coleg.
2. Darparu sail gyson ac effeithlon ar gyfer gwerthuso strategaethau amgen a datblygu cynlluniau cyllidol a rheolaeth risg effeithiol.
3. Darparu amgylchedd dysgu rhagorol ac effeithiol i fyfyrwyr a staff er mwyn cyflawni amcanion dysgu ac adnoddau cyfredol trwy drefnu adnoddau yn economaidd, effeithiol, ac effeithlon.
4. Cynllunio a rheoli cyllideb datblygiadau'r Coleg.

Coleg Catholig Dewi Sant

5. Darparu sail gyson ac effeithlon ar gyfer gwerthuso strategaethau amgen a datblygu cynlluniau cyllidol a rheolaeth risg effeithiol.

Dangosyddion Perfformiad

Cynhwysir dangosyddion perfformiad cyllidol yn y strategaeth gyllidol, gyda nifer ohonynt wedi'u cynnwys yng nghyfrifon rheolaeth fisol a'r Cofnod Cyllidol Blynnyddol yr adroddwyd i Lywodraeth Cymru. Ymhlith y dangosyddion perfformiad, mae:

1. Targedau Recriwtio.
2. Monitro targedau cyfraddau troi ymgeiswyr yn fyfyrwyr sy'n ymrestru.
3. Monitro cyfraddau llwyddiant cwrs, rhaglen, a'r sefydliad.
4. Monitro perfformiad fesul gradd ar lefel cwrs ac ar lefel sefydliad.
5. Data ar gyrchfan dysgwyr.
6. Arolygon ac adroddiadau ar foddhad myfyrwyr a rhieni.

Dyma'r dangosyddion perfformiad cyllid allweddol sy'n ffurfio'r strategaeth gyllidol:

Dangosydd Perfformiad Allweddol	Gwirioneddol 2020/21	Gwirioneddol 2019/20
Enillion cyn llog, treth, dibrisiad ac amorteiddiad fel canran incwm (Targed o 4%)	7.5%	5.90%
Gwarged gweithredu fel canran o gyfanswm yr incwm – Targed 1%	(2.8)%	0.1%
Costau Staff fel canran o gyfanswm yr incwm – Targed o 70%	72.44%	75.04%
Asedau cyfredol/ Rhymedigaethau cyfredol – Targed 2.0	1.33	1.27
Dyddiau arian parod i gyfanswm y gwariant – Lleiafswm darged o 35 diwrnod	169	67
Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd i dalu'r anfoneb pryniant – ni ddylai'r targed fod yn fwy na 30 diwrnod	20.70	22
Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd i dderbyn taliad anfoneb gwerthiant – Targed i fod yn llai na 45 diwrnod	20.10	1.25

Mae'r Coleg yn ymrwymedig i arsylwi pwysigrwydd mesurau a dangosyddion perfformiad. Mae'n ofynnol i'r Coleg gwblhau Cofnod Cyllid blynnyddol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Asesir y Coleg gan Lywodraeth Cymru fel un sydd â graddiad iechyd cyllidol Categori B, a chaiff ei ddiffinio fel a ganlyn: "sefyllfa gyllidol y sefydliad a'i strategaeth gyllidol yn cefnogi'r cynllun sefydliadol, a gellid ei gryfhau". Ar hyn o bryd, ystyrir y graddiad cyfredol, Categori B, yn ganlyniad derbyniol.

DATBLYGIAD A PHERFFORMIAD

Canlyniadau Ariannol

Cynhyrchodd y Coleg warged, cyn enillion a cholledon o £241,129 yn 2020/21 (2019/20 diffyg o £7231). Roedd sawl eitem a gafodd effaith niweidiol ar ein cyflwr ariannol.

Yn gyntaf, yr effaith oherwydd yr addasiad tâl pensiwn FRS 102 (heb arian parod) o £443,488 (2019/20 £237,210) ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)

Yn ail, mae'r coleg yn ailwampio'i adeiladau ar hyn o bryd. O ganlyniad, gwnaed un defnydd o asedau sylweddol o £399,981 a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol.

Coleg Catholig Dewi Sant

Y golled actiwaraid o ran cynlluniau pensiwn oedd £833,612 (colled 2019/20 £1,542,567) a olygai mai cyfanswm y golled am y flwyddyn oedd £1,535,000 (colled 2018/19 £551,000).

Ers cyflwyniad y FRS102, mae gwerth cofrestriadau heb arian parod sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wedi tyfu a allai wneud hi'n anodd dirnad sefyllfa sylfaenol gweithrediadau'r Coleg. O ganlyniad, mae adroddiadau rheolwyr yn symud i ffwrdd o incwm cynhwysfawr mewn blwyddyn tuag at Enillion cyn llog, trethiant, dibrisiant, ac amorteiddiad. Dyma sylfaen y cyfamod benthycu gyda Barclays a wnaeth y Coleg gyflawni'n gyffyrddus yn 2020/21.

Cyfanswm yr ychwanegiadau asedau sefydlog diriaethol oedd £999,926. Rhannwyd hyn rhwng adeiladau £509,147 a chyfarpar £491,779.

Prif brosiectau'r flwyddyn oedd ailwampio'r prif adeilad £268,000. Ariannwyd y prosiect hwn yn sylweddol gan Ysgolion a Cholegau'r 21^{ain} Ganrif a gyfrannodd 85% at y £2.4m oedd angen. Disgwylir i'r cyllid a'r gwaith adeiladu barhau tan y flwyddyn nesaf 2021/22, gyda dyddiad gorffen disgwylidig ym mis Chwefror 2022.

Mae gan y Coleg ddibyniaeth sylweddol ar Lywodraeth Cymru am ei ffynhonell bennaf o gyllidol, sy'n deillio o grantiau cylchol. Yn 2020/21, darparodd Lywodraeth Cymru 97% (2019/20 94%) o incwm cyflawn y Coleg.

Coleg Catholig Dewi Sant

Amcanion a pholisïau'r Trysorlys

Rheolaeth Drysorlys yw rheolaeth lif arian y Coleg a'i bancio; rheolaeth effeithiol o'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a gorchwyl perfformiad optimaidd sy'n gyson â'r peryglon hynny. Nid oes gan y Coleg farchnad arian a thrafodion marchnad gyfalaf.

Mae gan y Coleg bolisi rheolaeth drysorlys ar wahân.

Cymeradwyr benthyca byr dymor ar gyfer dibenion referniw dros dro gan y Swyddog Cyfrifyddu. Mae'n rhaid i unrhyw fenthyca arall gael ei gymeradwyo gan y Corff Llywodraethol, a rhaid iddo gydymffurfio â gofynion y Memorandwm Cyllidol.

Llif arian parod a Hylifedd

Cafwyd mewnlif arian parod yn deillio o weithgareddau gweithredu o £2,789,307 (2019/20 £1,306,400) a chynnydd net mewn arian parod a chyferwerth ag arian parod yn y flwyddyn o £1,759,370 (2019/20 £412,772), sy'n unol â'r EBITDA ar gyfer y flwyddyn.

Cyfrifwyd maint cyfanswm benthyca'r Coleg a'i ddull o ymdrin â chyfraddau llog er mwyn sicrhau clustog resymol rhwng cyfanswm cost gwasanaethu dyled a llif arian parod gweithredol. Yn ystod y flwyddyn, aethpwyd tu hwnt i'r ffiniau hyn yn gyffyrddus.

Polisi ar Gronfeydd wrth gefn

Nid oes gan y Coleg Bolisi Cronfeydd wrth gefn, ond mae'n cydnabod pwysigrwydd cronfeydd wrth gefn i sefydlogrwydd cyllidol unrhyw sefydliad, ac yn sicrhau bod yna arian parod wrth gefn digonol i gefnogi gweithgareddau craidd y Coleg.

Ar ddyddiad y fantolen, o ganlyniad i'r golled actiwaraid mewn cynlluniau pensiwn, ceir balans negyddol ar incwm a gwariant wrth gefn o £ 1,104,253 (2019/20 negyddol £1,696,736).

DATBLYGIAD A PHERFFORMIAD CYFREDOL A'R DYFODOL

Niferoedd Myfyrwyr

Yn 2020/21 gwnaeth y Coleg gyflawni gweithgareddau at 105.16% o'i darged ariannu. Ar gyfer 2020/21, roedd gan y Coleg tua 1,542 o fyfyrwyr wedi cofrestru ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn academiaidd, ac roedd 1399 "yn ariannol yn unol â chyfrifiadau Llywodraeth Cymru (yn fwy na'r 1324 a ragwelwyd). Gwerth LAP cyfartalog myfyrwyr y gellir eu hariannu oedd £3,903. Mae hyn gryn dipyn yn is na chyfartaledd y sector ond mae'n ganlyniad i ddarpariaeth alwedigaethol gymharol fach gan Goleg Dewi Sant o'i gymharu â chyfartaledd y sector.

Cyflawniad Myfyrwyr

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ddiarddel dangosyddion perfformiad myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2020/21. Cododd ganlyniadau'r arholiadau Safon Uwch 6.3% ar gyfer graddau A*-A (46%), gyda gostyngiad o 7.7% ar gyfer graddau A*-C (85.7%) a 1.8% ar gyfer graddau A*-E (98.2%). Fodd bynnag, dylid nodi bod y rheswm dros y newid yn y canlyniadau yw'rfaith y newidir y dull asesu o raddau Asesu'r Ganolfan i 'raddau a bennir gan y Ganolfan'.

Datblygiadau'r Cwricwlwm

Nod y Coleg yw datblygu dull cynhwysol tuag at recriwtio a dyluniad y Cwricwlwm, dysgu, ac addysg. Ceir pwyslais cryf ar ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy, yn enwedig llythrennedd, rhifedd, a llythrennedd digidol sy'n sicrhau mynediad i'r cwricwlwm ar lefel briodol. Caiff dysgwyr eu harwain a'u cefnogi trwy lwybrau dysgu addas gyda'r bwriad o sicrhau y gall pob dysgwr unigol gyflawni ei b/photensial llawn. Rhoddir pwyslais cryf far ddarparu ystod eang o gyrsgiau safon uchel, ynghyd â chynnig galwedigaethol cryf ar Lefel 3. Ar gyfer dysgwyr sydd heb gyrraedd y trothwy cymhwyster gofynnol i astudio cyrsiau Lefel 3, mae'r coleg hefyd yn sicrhau mynediad i ystod eang o gyrsgiau Lefel 2.

Coleg Catholig Dewi Sant

Rhagolygon y Dyfodol

Er roedd y Coleg yn aflwyddiannus yn ei gais i fod yn rhan o'r Awdurdod Lleol, mae'n bwriadu gweithio'n agos â'r Awdurdod Lleol, yn enwedig y Consortia Rhanbarthol, i gefnogi dysgu ac addysgu, a gweithrediad Fframwaith Cwricwlwm Cymru.

Cafodd y Coleg Arolygiad Esgobaethol ym mis Mawrth 2020, ac fe wobrwyd ar sail y dyfarniadau canlynol:

- Bywyd ac Ethos Catholig: Rhagorol
- Addysg Grefyddol y Cwricwlwm: Rhagorol
- Addoliad ar y Cyd: Rhagorol

Parha'r Coleg i ragori ei darged recriwtio myfyrwyr. Ym mis Rhagfyr 2020, recriwtiodd y Coleg 12% o fyfyrwyr yn fwy na'i darged o Lywodraeth Cymru. Mae'r Coleg yn optimistaidd y bydd ei ddyraniad ariannu gwreiddiol ar gyfer y flwyddyn 2020/21 yn cynhyddu er mwyn adlewyrchu'r myfyrwyr ychwanegol.

Fe wnaeth gwersi wyneb yn wyneb ail-ddechrau ym mis Medi 2020, ar ôl cyfnod o wersi ar-lein a gynhaliwyd yng ngoleuni Cofid-19 a'r cyfnod clo ym mis Mawrth 2020. Dim ond 50% o fyfyrwyr sy'n mynychu dosbarthiadau wyneb yn wyneb ar unrhyw un adeg. Rhannwyd myfyrwyr i ddwy swigen, lle y dosrannir gwersi wyneb yn wyneb iddynt ar wahanol rannau o'r wythnos. Gwneir hyn i sicrhau ymlyniad at ganllawiau pellter cymdeithasol, o fewn ystafell ddosbarth neu o fewn ardaloedd cymdeithasol y Coleg. Mae'r Coleg wedi penodi stiwardiaid i sicrhau bod dysgwyr yn glynu at ganllawiau pellter cymdeithasol. Cywasgir y diwrnod coleg i sicrhau bod dysgwyr ar y safle yn unig pan ydynt mewn gwersi. Mae rhai myfyrwyr wedi dewis i fod yn 'dysgwyr o bell' ar gyfer eu hamserlen gyfan. Mae gan y myfyrwyr hyn gyflyrau iechyd gwaelodol; yn dioddef o strain neu bryder; neu sydd ag aelodau o'u cartref yn dioddef o gyflyrau iechyd gwaelodol. Cafodd ymateb y Coleg i Cofid-19 ei archwilio'n annibynnol, gan arwain at farn archwiliol y gallai'r Corff Llywodraethol gymryd sicrwydd bod rheoliadau ynghylch Cofid-19 wedi'u cynllunio'n addas, eu cymhwyso'n gyson, ac yn gweithredu'n effeithiol.

Perfformiad Talu

Mae Deddf Talu Dyledion yn Hwyr 1998, a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 1998, yn gofyn i Golegau, mewn absenoldeb cytundeb i'r gwrthwyneb, wneud taliadau i gyflenwyr cyn pen 30 diwrnod ar ôl darparu naill ai nwyddau neu wasanaethau, neu'r dyddiad lle derbyniwyd yr anfoneb. Y targed a osodir gan y Trysorlys am daliad i gyflenwyr o fewn 30 diwrnod yw 95%. Mae telerau'r taliad cyflenwyr i'r Coleg yn amrywio o 0-60 diwrnod. Yn ystod y cyfnod cyfrif 1 Awst 2019 - 31 Gorffennaf 2020, talwyd 93% o'r anfonebau o fewn 30 diwrnod, a 97% ohonynt o fewn 60 diwrnod.

Ni chododd y Coleg unrhyw gostau llog mewn cysylltiad â thaliad hwyr ar gyfer y cyfnod hwn.

ADNODDAU

Ariannol

Mae gan y Coleg rwymedigaethau net o £1,104,253, sy'n cynnwys £3,703,493 rhwymedigaeth bensiwn (2018/19 £4,043,005) a dyled hir dymor o £155,841 (2019/20 £0).

Pobl

Mae'r Coleg yn cyflogi 125 o bobl (wedi'u mynegi yn gyfwerth â llawn-amser), ac o'r rhain, y mae 74 ohonynt yn staff dysgu.

Enw da

Mae gan y Coleg enw da yn lleol a chenedlaethol. Mae cynnal brand safonol yn hanfodol i lwyddiant y Coleg wrth ddenu myfyrwyr a datblygu perthnasau allanol.

PRIF RISGIAU AC ANSICRWYDD:

Parha'r Coleg i ddatblygu ac ymgorffori system o reolaeth fewnol, gan gynnwys rheoli cyllid, gweithredu a risg er mwyn diogelu asedau ac enw da'r Coleg.

Coleg Catholig Dewi Sant

Yn seiliedig ar y cynllun strategol, mae'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn ymgymryd ag arolwg hollgynhwysol o'r peryglon y mae'r Coleg yn agored iddynt. Maent yn dynodi systemau a gweithdrefnau, sy'n cynnwys gweithredoedd ataliadwy penodol a ddylai leddfu unrhyw effaith dichonol ar y Coleg. Yna, caiff y rheolaeth fewnol ei gweithredu, a bydd adolygiad y flwyddyn ddilynol yn adolygu effeithiolrwydd a chynnydd yn erbyn gweithredoedd lleddfu risg. Yn ogystal â'r adolygiad blyneddol, bydd yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth hefyd yn ystyried unrhyw risg a gellir codi o ganlyniad i waith newydd a wneir gan y Coleg.

Mae cofrestr risg yn cael ei chynnal ar lefel Coleg a adolygir yn dymhorol gan y Pwyllgor Archwilio, neu'n fwy cyson lle bo'n angenrheidiol. Mae'r gofrestr risg yn dynodi peryglon allweddol, y debygolrwydd y bydd y peryglon hynny'n digwydd, eu heffaith bosibl ar y Coleg, a'r camau y cymerir i leihau neu leddfu'r peryglon. Mae'r peryglon yn cael eu blaenoriaethu gan ddefnyddio system sgorio sy'n gyson.

Cefnogir hyn gan raglen hyfforddiant rheolaeth risg sy'n codi ymwybyddiaeth am risg drwy gydol y Coleg.

Trosodd, amlinellir disgrifiad o'r ffactorau risg pennaf a allai effeithio'r Coleg. Nid yw'r holl ffactorau hyn o fewn rheolaeth y Coleg. Ceir ffactorau eraill heblaw'r rhai a rhestrir isod y gallai gael effaith er gwaeth ar y Coleg.

1. Os bydd niferoedd y disgyblion Catholig yn gostwng, yna efallai caiff ethos y Coleg ei danseilio. Gellir lleddfu'r risg hon mewn sawl ffordd:
 - Hyrwyddir ethos a chenhadaeth drwy weithredoedd datblygiad staff, sy'n cael eu harwain gan y Tîm Caplaniaeth.
 - Rhaglen gyswllt wedi'i thargedu ar gyfer ein hysgolion partner.
 - Deunydd marchnata wedi'u haddasu ar gyfer ein hysgolion partner sy'n pwysleisio'r berthynas ôl-16, gan gynnwys gwahodd holl ddysgwyr blwyddyn 11 i'n Nosweithiau Agored.
 - Bydd y Cynllun datblygu'r Gaplaniaeth yn mynd i'r afael ag unrhyw feysydd datblygiad, sy'n dilyn proses hunan-asesiad.
 - Trafodaethau sy'n cymryd lle gydag Ysgol Uwchradd RCT/Cardinal Newman ym Mhontypridd gyda'r bwriad iddynt gytuno statws ysgol bartner. Bydd hyn yn arwain at gynhyddiad yng nghanran disgyblion Catholig.
 - Sefydlu'r Rhaglen Gynnydd Catholig Ôl-16 (Uwch-dîm Arweinyddiaeth ac Arweinwyr Ysgolion).
 - Sefydlwyd y Gymdeithas Gatholig a Chyfeillion ('Catholic and Friends Society').
 - Cysylltiadau Cryfach gyda'r Plwyfi, sy'n cynnwys Rhaglen 'Gyfrif Dysgu Personol' a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cael ei darparu i sawl blwyf.
 - Ymgysylltiad parhaus gyda'r clergwyr ar sail darpariaeth 'Fyfyrdod Ysbrydol'
2. Os oes methiant i gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol, gall y Coleg a'i weithwyr wynebu her gyfreithiol a chosbedigaethau troseddol neu gyllidol. Gellir lleddfu'r risg hon mewn sawl ffordd:
 - Modiwlau Hyfforddiant Cydymffurfio ar-lein i'w cwblhau'n flynyddol gan staff i gyd: Diogelu, Iechyd a Diogelwch, Cyfleoedd Cyfartal, Diogelu Data, a Diogelwch Gwybodaeth.
 - Gweithredu argymhelliannau Diogelu 'Yearwood' i leihau'r methiannau i gydymffurfio gyda gofynion cyfreithiol.
 - Mae'r Rheolwr Adnoddau Dynol nawr yn Swyddog GDPR.
 - Arolwg Mewnol GDPR Cadarnhaol – Mis Mehefin 2020.
 - Cyflawnwyd y gofynion Cyfreithiol ynghylch llywodraethu yn ystod y cyfnod clo Cofid-19, lle cynhaliwyd cyfarfodydd trwy 'Microsoft Teams'.

Coleg Catholig Dewi Sant

3. Os yw'r Coleg yn methu â chyflawni ei dargedau ariannol, byddai'n colli incwm a gallai wynebu cau. Gellir lleddfu'r risg hon mewn sawl ffordd:
 - Monitro apêl y cynnig cwricwlwm a gwneud addasiadau lle'n briodol.
 - Cyd-weithio gyda sefydliadau eraill ynghylch darpariaeth rhaglenni addas.
 - Targedau ariannu yn unol â chronfa dyfiant ychwanegol.
4. Petai ddigwyddiad o bwys yn digwydd, gallai'r Coleg wynebu ymyrraeth yn ei allu i weithredu'n effeithiol. Gellir lleddfu'r risg hon mewn sawl ffordd:
 - Cynllun Adfer Trychineb ar waith.
 - Adolygu, diweddarau, a phrofi (lle'n bosibl) Cynllun Adfer Trychineb gan ymgorffori'r canllawiau llywodraethol diweddaraf a gyhoeddwyd o ganlyniad i ddigwyddiadau terfysgol diweddar a Cofid-19.
 - Crëwyd asesiadau risg a chynlluniau Cofid-19 sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd wrth i'r sefyllfa ddatblygu.
5. Mae'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch (2015) yn cynnwys dyletswydd neilltuol ar Golegau Addysg Bellach sy'n gysylltiedig â datblygiad fframwaith arolygaeth gyffredin. Dyma'r dyletswyddau hyn:
 - Hyfforddiant Staff a llywodraethwyr yn cael ei gwblhau'n flynyddol.
 - Adnoddau ar-lein (i'w hadolygu)
 - Hyfforddiant, gweithdrefnau, a chofrestr Atal ('Prevent') ar waith.
 - Polisi Cyfnod Clo yn cael ei adolygu a'i goethi.
6. Os nad oes gan y llywodraethiad cymwyseddau arbenigol, gallai fethu â gweithredu'n effeithiol mewn meysydd allweddol arwain at Goleg sy'n methu. Gellir lleddfu'r risg hon mewn sawl ffordd:
 - Swydd newydd 'Clerc i'r Llywodraethwyr'.
 - Gwnaeth arolygiad Estyn 2019 farnu arweinyddiaeth (sy'n cynnwys llywodraethu) yn rhagorol.
 - Gweithredwyd Cynllun Llywodraethu a fframwaith safon newydd 2019/20.
 - Symudwyd y wybodaeth lywodraethu o 'Mwdl' i 'Office 365' yn 2020.
 - Contractiwyd Ymgynghorwyr Allanol gyda chylch gwaith i ymdrin â llywodraethu, llesiant, a hydwythedd.

CYSYLLTIADAU Â RHANDDEILIAID

Yn unol â cholegau eraill a gyda phrifysgolion, mae gan Goleg Catholig Dewi Sant lawer o randdeiliad. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Myfyrwyr.
- Byrddau Ariannol y Sector Addysg.
- Staff.
- Archesgobaeth Gatholig Rufeinig Caerdydd.
- Cyflogwyr Lleol (gyda chysylltiadau neilltuol).
- Awdurdodau Lleol.
- Y gymuned leol.
- Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch eraill.
- Undebau Llafur.
- Byrddau Proffesiynol.

Mae'r coleg yn cydnabod pwysigrwydd y cysylltiadau hyn, ac yn cysylltu'n gyson gyda nhw trwy wefan y Coleg a thrwy gyfarfodydd.

Cydraddoldeb

Mae'r Coleg yn ymrwymedig i sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb sy'n dysgu ac yn gweithio yma. Rydym yn parchu ac yn rhoi gwerth ar wahaniaeth mewn hil, rhyw, rhywioldeb, anabledd, crefydd neu gred, ac oedran. Ymdrechwn yn galed i ddileu amodau sy'n rhoi pobl dan anfantais, a byddwn yn gweithredu i frwydro yn erbyn culni a rhagfarn. Caiff y polisi hwn ei weithredu gydag adnoddau, a'i fonitro ar sail gynlluniedig.

Coleg Catholig Dewi Sant

Mae'r Coleg yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb a Nodau Cydraddoldeb er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Coleg yn cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb ar bob polisi a gweithdrefn newydd, ac yn cyhoeddi'r canlyniadau. Gwneir asesiadau effaith cydraddoldeb hefyd ar gyfer polisiau a gweithdrefnau sydd eisoes yn bodoli yn ôl tref neu flaenoriaeth.

Mae'r Coleg yn ystyried pob cais am swydd gan unigolion anabl, gan gofio galluoedd yr unigolion dan sylw, ac yn gwarantu cyfwelliad i unrhyw ymgeisydd anabl sy'n cwrdd â meini prawf hanfodol y swydd. Os bydd y cyflogai yn mynd yn anabl, gwneir pob ymdrech i sicrhau bod eu cyflogaeth gyda'r Coleg yn parhau. Mae polisi'r Coleg yn darparu hyfforddiant, datblygiad gyrfaol a chyfleoedd am ddyrchafiad sydd, cyn belled ag y bo modd, yn darparu cyfleoedd cyfartal i'r rhai sy'n weithwyr heb anabled.

Datganiad Anabled

Mae'r Coleg yn ceisio cyflawni'r amcanion fel y gosodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac i gydymffurfio â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru):

- Mae gan y Coleg Ganolfan Gefnogaeth Ddysgu, sy'n darparu gwybodaeth, cyngor, ac yn trefnu cefnogaeth lle bo angen i fyfyrwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol.
- Ceir rhestr o gyfarpar arbenigol ar gael at ddefnydd y myfyrwyr, ac mae ystod o dechnoleg gynorthwyol hefyd.
- Mae'r Polisi Derbyn ar gael trwy wefan y Coleg, Ymdrinnir ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau i beidio â chynnig lle o dan y polisi cwynion.
- Mae cynnig o ddarpariaeth ddysgu gyffredinol y Coleg hefyd ar gael ar wefan y Coleg.
- Ceir Cynorthwyrwyr Cymorth Myfyrwyr a allai ddarparu cefnogaeth ddysgu amrywiol. Mae yna raglen ddatblygiad staff i sicrhau darpariaeth gefnogaeth fyfyrwyr o safon uchel i fyfyrwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Disgrifir gwasanaethau cwnsela, lles, gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth, gweithdrefnau cwynion a disgyblu yn cael eu disgrifio yn y Canllaw i Fyfyrwyr a ddarperir i bob myfyriwr.

Datgelu Gwybodaeth i'r Archwilwyr

Mae'r aelodau a ddaliodd y swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn yn cadarnhau, hyd y gwâr pob un, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Coleg yn ymwybodol ohoni; ac mae pob aelod wedi cymryd pob cam y dylen nhw wedi cymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sefydlu bod archwilwyr y Coleg yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cymeradwywyd drwy orchymyn aelodau'r Corff Llywodraethol ar 2 Chwefror 2022 a'i lofnodi ar ei ran gan:



Christian Mahoney

Cadeirydd

Coleg Catholig Dewi Sant

Datganiad Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol

Darperir y datganiad canlynol i alluogi darllenwyr yr adroddiad blynyddol a chyfrifon y Coleg i ddeall ei drefn lywodraethol a'i strwythur cyfreithiol yn well. Mae'r datganiad hwn yn delio â'r cyfnod rhwng 1 Awst 2020 – 31 Gorffennaf 2021, hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol.

Ymdrecha'r Coleg i gynnig ei fusnes:

- i. Yn unol â'r saith egwyddor a nodwyd gan y Pwyllgor Safonau ym Mywyd Cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrycholdeb, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd, ac arweinyddiaeth); a
- ii. Rhoi sylw dyledus i'r Côt Llywodraethu Corfforedig y DU 2014 i'r graddau y mae'n gymwys i'r sector Addysg Bellach.

Mae'r Coleg yn ymrwymedig i arddangos arfer gorau ym mhob agwedd o'i lywodraethu corfforaethol. Nid ydym wedi mabwysiadu'r Côt Llywodraethu Corfforaethol y DU, nac wedi'i gymhwyso. Fodd bynnag, rydym wedi adrodd ein trefniadau ar gyfer llywodraethu corfforaethol drwy dynnu ar yr arfer gorau sydd ar gael, gan gynnwys yr agweddau hynny o'r Côt Llywodraethu Corfforaethol y DU yr ystyriem i fod yn berthnasol i'r sector addysg bellach ac arfer gorau.

Mae'r Coleg yn elusen wedi'i heithrio yn ôl Rhan 3 o'r Ddeddf Elusennau 2011. Mae'r Llywodraethwyr, sydd hefyd yn ymddiriedolwyr at ddibenion y Ddeddf Elusennau 2011, yn cadarnhau y rhoddasant sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiynydd Elusennau ar fudd cyhoeddus, a bod y datganiadau gofynnol yn ymddangos mewn man arall o'r datganiadau ariannol hyn.

Y Corff Llywodraethol

Yn y tabl isod, rhestrir yr aelodau a wasanaethodd ar y Corff Llywodraethol yn ystod y flwyddyn hyd at ddyddiad llofnodi'r adroddiad hwn:

Enw	Dyddiad penodi	Hyd Tymor y Swydd	Statws y Penodiad	Y Pwyllgorau a wasanaethodd, a phresenoldeb
Mr Ian Brookfield	1 Medi 2017	4 blynedd	Sylfaenol	Archwiliad 100% Profiad Myfyrwyr, Safonau Academaidd, a Sicrhau Ansawdd 33% Corff Llywodraethol Llawn 66%
Dr John Channon	1 Ebrill 2019	2 flynedd	Rhiant	Cyllid ac Adnoddau 33% Corff Llywodraethol Llawn 66%
Mrs Helen Cargill	19 Mehefin 2018	4 blynedd	Cymuned	Archwiliad 100% Corff Llywodraethol Llawn 100%
Canon Peter Collins	1 Ebrill 2018	4 blynedd	Cymuned (hyd at 18 Mehefin 2018) Sylfaenol (hyd at 19 Mehefin 2018)	Ethos a Diwylliant Catholig 100% Profiad Myfyrwyr, Safonau Academaidd, a Sicrhau Ansawdd 33% Corff Llywodraethol Llawn 66%
Mr John Edwards	1 Gorffennaf 2019	4 blynedd	Sylfaenol	Corff Llywodraethol Llawn 66% Cyllid ac Adnoddau 33%

Coleg Catholig Dewi Sant

Mr Michael Harper	1 Medi 2015	4 blynedd	Sylfaenol (Is-gadeirydd)	Archwiliad (Cadeirydd) 100% Profiad Myfyrwyr, Safonau Academaidd, a Sicrhau Ansawdd 100% Chwiliad a Llywodraethu 100% Corff Llywodraethol Llawn 100%
Mr Nigel Harris	1 Medi 2017	4 blynedd	Aelod Cyfetholedig	Cyllid ac Adnoddau 66% Corff Llywodraethol Llawn 50%
Mr Mark Leighfield /Mrs Lisa Newman Yn absenoldeb y Pennaeth, fe fynychodd Lisa Newman yn ei le	1 Ionawr 2004	-	Pennaeth	Ethos a Diwylliant Catholig 100% Profiad Myfyrwyr, Safonau Academaidd, a Sicrhau Ansawdd 100% Cyllid ac Adnoddau 100% Chwiliad a Llywodraethu 100% Corff Llywodraethol Llawn 100%
Mr Justin McCarthy	1 Medi 2018	4 blynedd	Sylfaenol	Archwiliad 100% Ethos a Diwylliant Catholig 50% Corff Llywodraethol Llawn 100%
Professor David Egan	2019	4 blynedd	Aelod Cyfetholedig	Corff Llywodraethol Llawn 50% Ethos a Diwylliant Catholig 100%
Mr Christian Mahoney	1 Medi 2017	4 blynedd	Sylfaenol (Cadeirydd)	Ethos a Diwylliant Catholig (Cadeirydd) 100% Profiad Myfyrwyr, Safonau Academaidd, a Sicrhau Ansawdd 100% Cyllid ac Adnoddau 100% Cydnabyddiaeth (Cadeirydd) – ni chynhaliwyd cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn Chwiliad a Llywodraethu (Cadeirydd) 100% Corff Llywodraethol Llawn 100%
Ms Olivia McLaren	1 Ionawr 2020	2 flynedd	Staff	Ethos a Diwylliant Catholig 100% Corff Llywodraethol Llawn 100% Profiad Myfyrwyr, Safonau Academaidd, a Sicrhau Ansawdd 100%
Mr David Stone	1 Ionawr 2016	4 blynedd	Sylfaenol	Corff Llywodraethol Llawn 100% Profiad Myfyrwyr, Safonau Academaidd, a Sicrhau Ansawdd 75% Ethos a Diwylliant Catholig 50%

Coleg Catholig Dewi Sant

Margaret Thorne	1 Hydref 2019	4 blynedd	Sylfaenol	Cyllid ac Adnoddau 75% Corff Llywodraethol Llawn 50%
Prof Sally Power	1 Medi 2015	4 blynedd	Sylfaenol	Profiad Myfyrwyr, Safonau Academaidd, a Sicrhau Ansawdd 75% Cyllid ac Adnoddau 100% Chwiliad a Llywodraethu 50% Corff Llywodraethol Llawn 100%
Mr Umar Shahid	1 Medi 2019	1 flwyddyn	Myfyriwr	Ethos a Diwylliant Catholig 50% Profiad Myfyrwyr, Safonau Academaidd, a Sicrhau Ansawdd 100% Corff Llywodraethol Llawn 100%
Mae Mrs Georgia Brown yn gweithredu fel Clerc y Corff Llywodraethol				

Cyfrifoldeb y Corff Llywodraethol ydy cynnig barn annibynnol ar faterion strategaeth, perfformiad, adnoddau, a safonau ymddygiad.

Darparwyd y Corff Llywodraethol â gwybodaeth gyson ac amserol ar berfformiad ariannol cyffredinol y Coleg ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall megis perfformiad yn erbyn targedau ariannol, gwariant cyfalaf arfaethedig, materion ansawdd a materion yn ymwneud â phersonél megis iechyd a diogelwch a materion amgylcheddol. Gwnaeth y Corff Llywodraethol gwrdd pedair gwaith yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Corff Llywodraethol yn cynnal ei fusnes trwy sawl bwyllgor a gadarnhawyd gan y Corff Llywodraethol. Y pwyllgorau hyn ydy:

- Archwiliad
- Ethos a Diwylliant Catholig
- Profiad Myfyrwyr, Safonau Academaidd, a Sicrhau Ansawdd
- Cyllid ac Adnoddau
- Cydnabyddiaeth
- Gwerthusiad
- Chwiliad a Llywodraethu

Coleg Catholig Dewi Sant

Lle'n briodol, bydd cofnodion llawn ar gyfer pob cyfarfod, ar wahân i'r rhai sy'n gyfrinachol yn nhyb y Corff Llywodraethol, ar gael o Glerc y Corff Llywodraethol, ar y cyfeiriad isod:

Coleg Catholig Dewi Sant
Heol Ty Gwyn
Penylan
Caerdydd
CF23 5QD

Mae Clerc y Corff Llywodraeth yn cynnal cofrestr o fuddiannau ariannol a phersonol y llywodraethwyr. Mae'r gofrestr ar gael i'w harchwilio ar y cyfeiriad uchod.

Gall pob llywodraethwr dderbyn cyngor annibynnol, proffesiynol er lles eu dyletswyddau ar draul y Coleg, ac mae ganddynt hawl i weld Clerc y Corff Llywodraethol, sy'n gyfrifol i'r Bwrdd er mwyn sicrhau y cydymffurfiwyd â'r holl weithdrefnau a rheoliadau perthnasol. Mae penodiad, gwerthusiad, a diswyddiad y Clerc yn fater i'r Corff Llywodraethol yn ei gyfanrwydd.

Cyflwynir agendâu ffurfiol, papurau, ac adroddiadau i'r llywodraethwyr mewn da bryd cyn cyfarfodydd y Bwrdd. Darperir taflen briffio ar sail ad hoc.

Mae gan y Corff Llywodraethol elfen annibynnol ac anweithredol gref, a does dim un unigolyn na grŵp yn tra-arglwyddiaethu'r broses benderfynu. Ystyrir y Corff Llywodraethol fod pob aelod anweithredol yn annibynnol ar reolwyr, ac yn rhydd o unrhyw fusnes neu gysylltiad arall a allai ymyrryd yn sylweddol ar eu dyfarniad annibynnol.

Mae'r cyfrifoldeb wedi'i rhannu'n glir gan fod rolau'r Cadeirydd a'r Swyddog Cyfrifyddu ar wahân.

Penodiadau i'r Corff Llywodraethol

Penodir aelodau sylfaen gan Archesgobaeth Caerdydd; caiff llywodraethwyr eu hethol o blith myfyrwyr, staff, a rhieni, a mater i'r Corff Llywodraethol yn ei gyfanrwydd yw ystyried unrhyw benodiad newydd i'r Corff Llywodraethol. Mae gan y Corff Llywodraethol Bwyllgor Chwiliad a Threfn Lywodraethol, sy'n cynnwys tri aelod o'r Corff Llywodraethol, sydd hefyd yn gyfrifol am ddethol ac enwebu unrhyw aelod newydd i'r Bwrdd. Mae'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am sicrhau y darperir hyfforddiant perthnasol yn ôl yr angen.

Penodir aelodau o'r Corff Llywodraethol ar gyfer tymor mewn swydd heb fod yn fwy na phedair blynedd.

Perfformiad y Corff Llywodraethol

Ystyriwyd gwerthusiad ar gyfer 2019/20 o fewn cyd-destun y:

- **Cefndir Rheoleiddio trefn Lywodraethol y Coleg**

Mae'r Coleg wedi mabwysiadu'r Côd Llywodraethu Da ar gyfer Colegau Cymru.

- **Cynllun Strategol 2016-2020 a 2020 ymlaen**

Adolygwyd cynnydd y cynllun strategol gan y Corff Llywodraethol ym mis Hydref 2020.

- **Cyfansoddiad newidiol aelodaeth y Corff Llywodraethol**

Cyfansoddiad newydd

- Mae 18 aelod ar y Corff Llywodraethol. Mae'r Corff Llywodraethol wedi'i strwythuro fel a ganlyn:
- 10 aelod sylfaenol (1 rôl wag i'w llenwi)
- 2 aelod cyfetholedig
- 1 rhiant-lywodraethwr
- 1 myfyriwr-lywodraethwr
- 1 staff-lywodraethwr
- 1 aelod o'r Awdurdod Lleol (1 rôl wag i'w llenwi)
- 1 aelod cymuned
- 1 aelod sef y Pennaeth

Coleg Catholig Dewi Sant

- Yn ystod y flwyddyn 1^{af} Awst 2021 tan 31^{ain} Awst 2022, dyma'r newidiadau a ddigwyddodd o fewn y Corff Llywodraethol:

Ymadawyr	Rheswm dros ymadael	Hyd cyfnod gwasanaethu (blynnyddoedd)
Llywodraethwr Sylfaenol	Ymddiswyddiad	3
Clerc	Ymddiswyddiad	10
Myfyriwr-lywodraethwr	Diwedd ei (h)amser yn y Coleg	2
Llywodraethwr Sylfaenol	Ymddiswyddiad	13
Llywodraethwr Sylfaenol	Ymddiswyddiad	20
Staff-lywodraethwr	Etholwyd Staff-lywodraethwr newydd	4

Aelodau Newydd	Dyddiad Cychwyn
Llywodraethwr Sylfaenol	Gorffennaf 2019
Clerc	Tachwedd 2019
Myfyriwr-lywodraethwr	Medi 2019
Llywodraethwr Sylfaenol	Hydref 2019

- Ar hyn o bryd, mae yna ddwy rôl wag i'w llenwi ar y Corff Llywodraethol. Mae un o'r rhain ar gyfer llywodraethwr o'r awdurdod lleol, sy'n cael ei hysbysebu gan yr Awdurdod Lleol. Mae'r llall ar gyfer llywodraethwr sylfaenol, a bydd yr Esgobaeth yn delio â'r rôl hon.
- Cwblhawyd y Gofrestr Ddiddordebau Blynnyddol mewn da bryd ar gyfer cyfarfod Corff Llywodraethol Llawn gyntaf ar y 1 Rhagfyr 2021.
- Diweddarwyd Llawlyfr y Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn, ac mae'n cael ei ddefnyddio.
- Sefydlwyd Pwyllgorau'r Corff Llywodraethol gan Offerynnau Llywodraethu ac Erthyglau Llywodraeth, yn 2005/06, a gadarnhawyd yn 2021/13. Disgwylir iddynt gael eu hadolygu yn 2021.
- Cyflawniad o ddyletswyddau statudol y Corff Llywodraethol fel y gosodir yn yr Offerynnau Llywodraethu ac Erthyglau Llywodraethu.**

Mae gwerthusiad ymarferol o waith y Corff Llywodraeth yn 2020/21 yn dangos ei fod wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol, a gadarnhawyd gan Archwiliad Mewnol ac Allanol.

Mae'r Corff Llywodraethol hefyd wedi cyfrif am ddiddyledrwydd cyllidol y Coleg trwy'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau (sydd wedi cwrdd pedair gwaith) a'r Pwyllgor Archwiliad (sydd wedi cwrdd tair gwaith).

Coleg Catholig Dewi Sant

Derbyniodd y Corff Llywodraethol llawn Adroddiadau Archwiliad Mewnol gan y Pwyllgor Archwiliad yn ystod tri o'u cyfarfodydd a oedd yn cynnwys adroddiad ar agweddau'r rheolaethau cyllidol, adroddiad archwiliad allanol, ac adroddiadau rheoli'r cyfrifon cyson o'r Cyfarwyddwr Cyllid i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn ystod pob cyfarfod (pedwar i gyd).

Cymeradwyaeth y Corff Llywodraethol Llawn i Ymateb yr Uwch-Dîm Arweinyddiaeth i'r Pandemig Coronafeiriws

Ymgwyrodd yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth, Clerc i'r Llywodraethwyr, a Chadeirydd y Llywodraethwyr ag adolygiad llawn o'r risg a geid yng nghyd-destun y gofrestr risg cyfredol a'r pandemig. Gwnaeth hyn gynnwys asesiad o'r peryglon yn gysylltiol â gweithrediad y Bwrdd Llywodraethol.

Cafodd pedwar Pwyllgor eu dileu lle teimlwyd nad oedd y cynnwys yn allweddol i lywodraethu'r Coleg. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch Byrddau Llywodraethol yn ystod y pandemig yw os na all cyfarfodydd gymryd lle o ganlyniad i'r Coronafeiriws, ni fydd y byrddau llywodraethol yn cael eu cosbi. Mae'r canllawiau hefyd yn datgan y dylai Byrddau Llywodraethol gymryd ymdriniaeth bragmatig wrth drefnu cyfarfodydd pwyllgor.

Ar wahân i'r dileadau hyn, parhaodd yr holl bwyllgorau eraill o bell trwy Teams.

Yn ystod cyfarfodydd o bell, gwnaeth y Llywodraethwyr gymeradwyo'r Asesiad Risg Cofid-19 a gyflwynodd bellter cymdeithasol llym, hylendid, a niferoedd llai ar safle'r Coleg i leddfu'r risg o drosglwyddo'r feirws. Gwnaethant hefyd gymeradwyo ymateb yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth i her cyflawni gofynion dysgwyr yn ystod y pandemig trwy gyflwyno dysgu cyfunol, ac yn ystod y cyfnod clo, dysgu'n hollol o bell.

Pwyllgor Taliad Cydnabyddiaeth

Trwy gydol y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2021, roedd Pwyllgor Taliad Cydnabyddiaeth y coleg yn cynnwys tri aelod o'r Corff Llywodraethol. Cyfrifoldebau'r Pwyllgor ydy gwneud argymhellion i'r Bwrdd am y taliadau cydnabyddiaeth a buddion y Swyddog Cyfrifyddu ac i bersonél rheoli allweddol eraill. Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfod yn ystod y flwyddyn.

Ceir manylion o daliadau cydnabyddiaeth ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2021 yn nodyn 7 y datganiadau ariannol.

Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys pum aelod o'r Corff Llywodraethol (heb gynnwys y Swyddog Cyfrifyddu a'r Cadeirydd). Mae'r Pwyllgor yn gweithredu yn unol â'r cylch gorchwyl ysgrifenedig a gymeradwywyd gan y Corff Llywodraethol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cwrdd bob tymor ac yn fforwm i adrodd ar ddatganiadau cyfrifyddion a datganiadau ariannol archwilwyr sy'n cael mynd at y Pwyllgor i drafod yn annibynnol heb fod rheolwyr y coleg yn bresennol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan brif gyrff ariannu AB am y modd maen nhw'n effeithio ar fusnes y coleg.

Mae archwilwyr mewnol y coleg yn adolygu'r systemau rheoli mewnol, y prosesau o reoli risg a llywodraethu yn unol â chynllun mewnbyn y cytunwyd arno ac yn adrodd yn ôl ar eu casgliadau i'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio.

Y rheolwyr sy'n gyfrifol am weithredu argymhellion archwiliad y cytunwyd arnyn nhw ac adolygir yr archwiliad mewnol o dro i dro er mwyn sicrhau bod y cyfryw argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith.

Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn cynghori'r Corff Llywodraethol ar benodi cyfrifyddion mewnol sy'n riportio ac archwilwyr datganiadau ariannol a'u taliadau cydnabyddiaeth am waith archwilio a gwaith arall heb fod yn waith archwilio, yn ogystal ag adrodd yn ôl yn flynyddol i'r Corff Llywodraethol.

Rheolaeth Fewnol

Ystod y cyfrifoldeb

Coleg Catholig Dewi Sant

Y Corff Llywodraethol sydd, yn y pen draw, yn gyfrifol am system rheolaeth fewnol y coleg ac adolygu ei effeithiolrwydd. Fodd bynnag, lluniwyd system o'r fath i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni nodau busnes a dim ond sicrwydd rhesymol all hyn ddarparu yn hytrach na sicrwydd llwyr yn erbyn camddatganiadau neu golled berthnasol.

Mae'r Corff Llywodraethol wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb o ddydd i ddydd i'r Pennaeth fel y Swyddog Cyfrifyddu dros gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cynorthwyo'r coleg i gyflawni ei bolisiau, ei nodau a'i amcanion tra'n diogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau y mae'n gyfrifol amdany'n nhw'n bersonol yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd ar ei gyfer yn y Memorandwm Ariannol rhwng Coleg Catholig Dewi Sant a'r corff ariannu sef Llywodraeth Cymru. Y Pennaeth sydd hefyd yn gyfrifol am adrodd i'r Corff Llywodraethol unrhyw wendidau neu fethiant perthnasol yn y rheolaeth fewnol.

Diben y system reolaeth fewnol

Lluniwyd y system o reolaeth fewnol i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol yn hytrach na sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd gall hyn ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus a luniwyd i ganfod a blaenoriaethu'r risgiau o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion y coleg, i werthuso'r tebygolrwydd y gwiredir y risgiau hynny a'r effaith petai'r risgiau hynny yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithiol, yn effeithiol ac yn economaidd. Gweithredwyd y system reoli mewnol yng Ngholeg Catholig Dewi Sant yn ystod y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2021 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blyneddol.

Y gallu i drin risg

Mae'r Corff Llywodraethol wedi adolygu'r risgiau allweddol y mae'r coleg yn eu hwynebu ynghyd â rhoi'r rheolyddion gweithredu, ariannol a chydymffurfiaeth ar waith i liniaru'r risgiau hynny. Mae'r Corff Llywodraethol o'r farn bod proses barhaus ffurfiol wedi bod yn ei lle i nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol y coleg ar gyfer y cyfnod yn gorffen 31 Gorffennaf 2021 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blyneddol. Mae'r Corff Llywodraethol yn adolygu'r broses hon yn gyson.

Fframwaith risg a rheoli

Seilir y system o reolaeth fewnol ar fframwaith o weithdrefnau gweinyddol o wybodaeth gyson gan reolwyr gan gynnwys gwahanu dyletswyddau a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Yn benodol, mae'n cynnwys:

- Systemau cyllidebu cynhwysfawr gyda chyllideb flynyddol a gaiff ei hadolygu gan y Corff Llywodraethol a chytuno arni.
- Y Corff Llywodraethol yn gyson yn adolygu adroddiadau ariannol cyfnodol a blyneddol sy'n dangos perfformiad ariannol yn erbyn rhagolygon.
- Gosod targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiadau eraill.
- Canllawiau rheoli buddsoddiadau cyfalaf wedi'u diffinio'n glir.
- Mabwysiadu disgyblaethau rheoli prosiect ffurfiol, lle bo'n briodol.

Mae gan Goleg Catholig Dewi Sant wasanaeth archwilio mewnol sy'n gweithredu yn unol â gofynion Cod Ymarfer Archwiliad Addysg Bellach Llywodraeth Cymru. Seilir gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol ar ddadansoddiad o'r risgiau y mae'r coleg yn eu hwynebu a seilir y cynlluniau archwilio mewnol blyneddol ar y dadansoddiad hwn. Mae'r Corff Llywodraethol yn ardystio'r dadansoddiad o'r risgiau a'r cynlluniau archwilio mewnol ar argymhelliad y pwyllgor archwilio. Mae'r archwilydd mewnol yn darparu o leiaf un adroddiad blyneddol ar weithgaredd archwilio mewnol yn y coleg ar gyfer y Corff Llywodraethol. Mae'r adroddiad yn cynnwys barn annibynnol yr archwilydd mewnol ar ba mor ddigonol ac effeithiol ydy system y coleg o reoli risg, ac ar y prosesau rheoli a llywodraethu.

Adolygu Effeithiolrwydd

Fel y swyddog cyfrifyddu, cyfrifoldeb y pennaeth ydy adolygu effeithiolrwydd y system o reoli mewnol. Mae'n seilio ei adolygiad o effeithiolrwydd y system ar y canlynol:

- Gwaith yr archwiliwyr mewnol.

Coleg Catholig Dewi Sant

- Gwaith y rheolwyr gweithredol o fewn y coleg sydd â'r cyfrifoldeb o ddatblygu a chynnal y fframwaith ar gyfer rheoli mewnol.
- Sylwadau gan archwilydd datganiadau ariannol y coleg, y cyfrifydd sy'n adrodd am sicrhau cysondeb, yr archwilydd cyllido a benodwyd (ar gyfer colegau sy'n amodol ar archwiliad cyllido) yn eu llythyron rheoli ac adroddiadau eraill.

Cynghorwyd y Swyddog Cyfrifyddu ar oblygiadau canlyniad ei adolygiad o effeithiolrwydd y system reoli mewnol gan y Pwyllgor Archwilio sy'n goruchwyllo gwaith yr archwilydd mewnol a ffynonellau sicrwydd eraill a bod cynlluniau yn eu lle i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau gwelliant parhaus i'r system.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn derbyn adroddiadau yn datgan y dangosyddion perfformiad allweddol a risg ac mae'n ystyried y problemau rheoli posibl mae mecanweithiau rhybudd cynnar yn eu dangos, y mecanweithiau rhybudd cynnar hynny sydd wedi'u hymgorffori o fewn yr adrannau a'u hatgyfnerthu gan hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o risg. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y gwasanaeth archwilio mewnol a ffynonellau sicrhau eraill sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer gwella. Unig rôl y Pwyllgor Archwilio yn y maes hwn ydy adolygiad uchel ei lefel o drefniadau'r rheoli mewnol. Mae agenda'r Corff Llywodraethol yn cynnwys eitem gyson i ystyried risg a rheoli ac mae'n derbyn adroddiadau ar hyn gan yr uwch dîm arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r pwyslais ar gael rhywfaint o sicrwydd nid adrodd drwy eithrio yn unig. Yn ei gyfarfod fis Ionawr 2022, cynhaliodd y Corff Llywodraethol yr asesiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2021 drwy ystyried dogfennaeth gan yr uwch dîm arweinyddiaeth a'r gwasanaeth archwilio mewnol ac ystyried digwyddiadau ers 31 Gorffennaf 2021.

Ar sail cyngor y Pwyllgor Archwilio a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Corff Llywodraethol o'r farn bod gan y coleg fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.

Yr unig faterion a nodir yn adroddiad yr archwiliad mewnol ydy'r materion hynny a ddaeth i sylw yn ystod yr archwiliad mewnol ac nid yw o anghenraid yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli nac o'r holl welliannau efallai sydd eu hangen.

Busnes Gweithredol

Yn dilyn cadarnhad y bydd y coleg yn parhau yn Sefydliad Addysg Bellach, mae mwy o sicrwydd nawr o sector y coleg ar gyfer blynyddoedd ariannol y dyfodol, mae'r Corff Llywodraethol yn ystyried bod gan y coleg adnoddau digonol i barhau i weithredu hyd y gellir ei ragweld. Am y rheswm hwn mae'n parhau i baratoi'r datganiadau ariannol fel busnes gweithredol.

Cymeradwywyd drwy orchymyn aelodau'r Corff Llywodraethol 2 Chwefror 2022 a'i lofnodi ar ei ran gan:



Christian Mahoney
Cadeirydd



Mark Leighfield
Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro

Coleg Catholig Dewi Sant

Datganiad ar Reoleidd-dra, Priodoldeb, a Chydymffurfiaeth y Coleg â thelerau ac amodau ariannu'r Corff Cyllidol

Mae'r Corff Llywodraethol wedi ystyried ei gyfrifoldeb i hysbysu Llywodraeth Cymru o anghysondeb perthnasol, amhriodoldeb diffyg cydymffurfiaeth thelerau ac amodau cyllido Llywodraeth Cymru, yn ôl y memorandwm ariannol sy'n bodoli rhwng y coleg a Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'n hystyriaethau, rydyn ni wedi rhoi'r sylw dyladwy i ofynion y memorandwm ariannol.

Rydyn ni'n cadarnhau, ar ran y Corff Llywodraethol, ein bod, ar ôl ymholi'n briodol a hyd eithaf ein gwybodaeth, yn gallu canfod unrhyw ddefnydd gwirioneddol anghyson neu amhriodol o gyllid gan y coleg neu unrhyw ddiffyg cydymffurfio â thelerau ac amodau cyllido dan femorandwm ariannol y coleg.

Rydyn ni'n cadarnhau na chanfuwyd unrhyw enghraifft o anghysondeb hanfodol, amhriodoldeb na diffyg cydymffurfio hyd yma. Os ceir unrhyw enghraifft ar ôl dyddiad y datganiad hwn, byddwn yn hysbysu Llywodraeth Cymru.



Mark Leighfield
Swyddog Cyfrifyddu
2 Chwefror 2022



Christian Mahoney
Cadeirydd y Llywodraethwyr
2 Chwefror 2022

Coleg Catholig Dewi Sant

Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau'r Corff Llywodraethol

Mae gofyn i aelodau'r Corff Llywodraethol gyflwyno datganiadau ariannol archwiledig ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Yn ôl telerau ac amodau'r Memorandwm Ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a Chorff Llywodraethol y coleg, mae gofyn i'r Corff Llywodraethol drwy ei Swyddog Cyfrifyddu baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â Datganiad 2015 o'r Arfer a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch a gyda Chyfarwyddyd Cyfrifon y coleg 2016 i 2017 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ac sy'n rhoi golwg gwir a theg o sefyllfa'r coleg a'r canlyniad ar gyfer y flwyddyn honno.

Wrth baratoi'r datganiadau cyllidol, mae gofyn i'r Corff Llywodraethol wneud y canlynol:

- Dethol polisïau cyfrifo addas a'u cymhwyso'n gyson.
- Barnu ac amcangyfrif yn rhesymol a doeth.
- Nodi a ddilynwyd Safonau Cyfrifo perthnasol, yn amodol ar ddatgelu unrhyw wro a ddigwyddodd a'i egluro yn y datganiadau ariannol
- Paratoi datganiadau ariannol ar y busnes gweithredol, oni fydd yn amhriodol i dybio y bydd y coleg yn parhau ar waith.

Mae gofyn i'r Corff Llywodraethol hefyd baratoi Adroddiad yr Aelodau sy'n disgrifio'r hyn y mae'n ceisio ei wneud a sut mae'n mynd o'i chwmpas hi, gan gynnwys statws cyfreithiol a gweinyddol y coleg.

Mae'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo priodol sy'n datgelu'n rhesymol gywir sefyllfa ariannol y coleg, ar unrhyw adeg, sy'n galluogi'r coleg i sicrhau bod ei ddatganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ar safonau corfforiad a safonau cyfrifo perthnasol eraill. Mae'n gyfrifol am gymryd camau sy'n rhesymol agored iddo er mwyn diogelu asedau'r coleg ac i rwystro a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Cyfrifoldeb Corff Llywodraethol y coleg ydy cynnal gwefan y coleg a'i 'hintegriti'; dydy'r gwaith y mae archwilwyr yn ei wneud ddim yn cynnwys ystyried y materion hyn, felly, dydy'r archwilwyr ddim yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw newid i'r datganiadau ariannol ers iddyn nhw gael eu rhoi ar y wefan. Gallai deddfwriaeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â pharatoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth awdurdodaethau eraill.

Mae aelodau'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am sicrhau bod gwariant ac incwm yn cael eu cymhwyso at y dibenion a nodwyd gan y Senedd a bod trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Hefyd, nhw sy'n gyfrifol am sicrhau bod cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r Memorandwm Ariannol gyda Llywodraeth Cymru yn unig ac ag unrhyw amodau eraill a osodir o dro i dro. Rhaid i aelodau'r Corff Llywodraethol sicrhau bod rheolyddion ariannol a rheolaeth addas yn eu lle er mwyn diogelu arian cyhoeddus ac unrhyw gyllid arall a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n briodol. Hefyd, mae aelodau'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau a gwariant y coleg yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol fel na pheryglir y buddion a ddylai ddeillio o'r defnydd o'r arian cyhoeddus a ddaw oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Cymeradwywyd drwy orchymyn aelodau'r Corff Llywodraethol 2 Chwefror 2022 a'i lofnodi ar ei ran gan:



Christian Mahoney
Cadeirydd

Coleg Catholig Dewi Sant

Adroddiad Archwilydd Annibynnol i aelodau Coleg Catholig Dewi Sant

Barn

Rydyn ni wedi archwilio datganiadau ariannol Coleg Catholig Dewi Sant ("y coleg") ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2021 sy'n cynnwys Datganiadau o Incwm Cynhwysfawr, Datganiad o Newid yn y Cronfeydd Wrth Gefn, y Fantolen, Datganiad o'r Llif Arian nodiadau ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu sylweddol. Mae'r fframwaith adroddiadau ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yn gyfraith gymwys ac yn Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, yn cynnwys FRS 102 "Safonau Adrodd Ariannol ar gyfer y DU a Gweriniaeth Iwerddon" a Datganiad o'r Arfer a argymhellir 2019: Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau cyllidol:

- yn rhoi golwg gwir a theg ar sefyllfa materion y coleg fel y mae ar 31 Gorffennaf 2021 ac o warged incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn orffennodd bryd hynny
- Wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol ag Ymarfer Cadw Cyfrifon sy'n cael ei Dderbyn yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig.

Sail barn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol Cyfrifyddu (DU) (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a chyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau o ran y safonau hynny ymhellach yn adran archwilio'r datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydyn ni'n annibynnol o'r coleg yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (FRC) ac rydyn ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio yr ydyn wedi'i chael yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i'n barn.

Casgliadau o ran busnes gweithredol

Wrth arolygu'r datganiadau ariannol, fe ddaethom i'r casgliad bod defnydd y Corff Llywodraethol o sail cyfrifyddu'r busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd gennym, nad ydym wedi datgelu unrhyw ansicrwydd sylweddol o ran digwyddiadau ac amodau, naill ai'n unigol neu ar y cyd, a allai beri i rywun wir amau gallu'r coleg i barhau i fabwysyadau sail cyfrifyddu'r busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o ddyddiad awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Gwybodaeth Arall

Y Corff Llywodraethol sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn Adroddiad aelodau'r corff Llywodraethol ar wahân i'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilwyr arnyn nhw. Dydy ein barn ar y datganiadau ariannol ddim yn cynnwys y wybodaeth arall a, ac eithrio i'r graddau a nodir yn glir fel arall yn ein hadroddiad, dydyn ni ddim yn mynegi unrhyw gasgliadau sicrwydd ar hynny.

O ran ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni ydy darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a ydy'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson gyda'r datganiadau ariannol neu fod y wybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos ei bod wedi ei cham-ddatgan yn sylweddol. Os byddwn yn canfod anghysonderau neu gamddatganiadau amlwg fel hyn mewn unrhyw wybodaeth arall, mae gofyn i ni benderfynu a oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad sylweddol yn y wybodaeth arall. Os, ar sail y gwaith a wnaethon ni, y down i'r casgliad bod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni riportio'r ffaith honno.

Does gennym ddim i'w adrodd ar hyn o beth.

Coleg Catholig Dewi Sant

Materion y mae gofyn i ni eu riportio fel eithriadau

Does gennym ddim i'w adrodd o ran y materion canlynol lle mae'r Cod Ymarfer Archwilio Addysg Bellach a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn gofyn i ni riportio i chi os, yn ein barn ni:

- na chadwyd cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd enillion ar gyfer ein harolygiad o'r canghennu na ymwelwyd gennym; neu
- os nad ydy'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- bod y wybodaeth a roddir i Aelodau'r Corff Lywodraethu, gan gynnwys yr adolygiad gweithredu ac ariannol a datganiadau o lywodraethu corfforaethol yn anghyson â'r datganiadau ariannol; a
- nad ydyn ni wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnon ni ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau'r Corff Llywodraethol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau'r Corff Llywodraethol ar dudalen 19, y Corff Llywodraethol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a bod yn fodlon eu bod yn cyflwyno golwg gwir a theg ac am unrhyw reolaeth y mae'r Corff Llywodraethol yn ei ystyried yn angenrheidiol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol ac yn rhydd o gamddatganiadau sylweddol boed hynny drwy dwyll neu drwy gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am asesu gallu'r coleg i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel bo'n berthnasol, y materion hynny sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu'r busnes gweithredol oni bai bod y Corff Llywodraethol yn bwriadu dod â'r gweithrediadau i ben, neu heb fod ganddyn nhw ddewis realistig arall ond i wneud hynny.

Cyfrifoldeb yr Archwilydd dros archwilio'r datganiadau cyllidol

Ein nod ydy cael sicrwydd rhesymol nad oes yn yr holl ddatganiadau ariannol unrhyw gamddatganiadau sylweddol, boed hynny drwy dwyll neu drwy gamgymeriad ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safon Ryngwladol Archwilio (DU) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol. Gall camddatganiadau ddigwydd oherwydd twyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid rhesymol ddisgwyl iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau cyllidol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau cyllid ar wefan Adrodd Ariannol y Cyngor ar www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad ein harchwilydd.

Riportio Gofynnol Arall

Barn ar faterion eraill a nodir yng Nghod Ymarfer Archwilio Addysg Bellach 2015 gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ein barn ni, ym mhob agwedd berthnasol:

- mae'r arian a wariwyd o grantiau Llywodraeth Cymru a chyllid arall o ba ffynhonnell bynnag a weinyddwyd gan y Sefydliad at ddibenion penodol wedi cael ei gymhwyso'n briodol at y dibenion hynny ac, os yn briodol, wedi ei reoli'n unol â'r holl deddfwriaeth berthnasol; ac
- mae incwm wedi cael ei gymhwyso yn unol â'r memorandwm ariannol gyda Llywodraeth Cymru.

Coleg Catholig Dewi Sant

Y defnydd o'r Adroddiad archwiliad

Gwneir yr adroddiad hwn yn unig ar gyfer y Corff Llywodraethol fel corff, yn unol ag Erthygl 22 o Erthyglau Llywodraethu'r coleg. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni gael datgan y materion hynny y mae gofyn i ni eu datgan i'r Corff Llywodraethol mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddibenion eraill. I'r graddau eithaf y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu, dydyn ni ddim yn derbyn cyfrifoldeb nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros neb heblaw'r coleg a'r Corff Llywodraethol fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn nac am unrhyw farn a ffurfiwyd gennym.

Jon Marchant (Uwch-Archwilydd Statudol)

Ar gyfer ac ar ran Mazars LLP

Cyfrifyddion Siartedig ac Archwilydd Statudol

90 Victoria Street

Redcliffe

Bryste

BS1 6DP

Dyddiad

Coleg Catholig Dewi Sant

Datganiad o Incwm a Gwariant Cymhwysfawr

	Nodiadau	Blwyddyn yn gorffen 31 Gorff 2021 2020	
		£'000	£'000
INCWM			
Grantiau corff cyllido	2	8,218	6,625
Ffioedd Dysgu a chytundebau dysgu	3	212	221
Grantiau a chytundebau eraill	4	30	23
Incwm arall	5	17	173
Incwm Buddsoddiadau	6	3	5
Cyfanswm Incwm		8,480	7,047
GWARIANT			
Costau Staff	7	6,142	5,267
Costau ailstrwythuro sylfaenol	7	1	21
Treuliau gweithredol eraill	8	1,700	1,343
Dibrisiant	11/12	422	359
Llog a chostau cyllidol eraill	9	57	50
Cyfanswm Gwariant		8,322	7,040
Gwarged/((Diffyg ariannol) cyn ennillion a cholledion eraill			
		159	7
Colled wrth waredu asedau		400	-
Gwarged/((Diffyg ariannol) cyn treth		(241)	7
Treth	10	-	-
Gwarged/((Diffyg ariannol) am y flwyddyn		(241)	7
Colled o ran cynlluniau pensiwn		834	(1,542)
Cyfanswm Incwm Cymhwysfawr am y flwyddyn		593	(1,535)
Cynrychiolwyd gan:			
Incwm Cymhwysfawr anghyfngedig		593	(1,535)

Coleg Catholig Dewi Sant

Datganiad o Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn

	£'000
Balans ar 31 Gorffennaf 2019	(161)
Diffyg ariannol o'r cyfrif incwm a gwariant	7
Incwm cymhwysfawr arall	(1,542)
Cyfanswm Incwm Cymhwysfawr am y flwyddyn	(1,535)
Balans ar 31 Gorffennaf 2020	(1,697)
Gwarged o'r cyfrif incwm a gwariant	(241)
Incwm cymhwysfawr arall	834
Cyfanswm Incwm Cymhwysfawr am y flwyddyn	593
Balans ar 31 Gorffennaf 2021	(1,104)

Coleg Catholig Dewi Sant

Mantolen ar 31 Gorffennaf 2021

	Nodiadau	2021 £'000	2020 £'000
Asedau heb fod yn gyfredol			
Asedau diriaethol sefydlog	11/12	3,884	3,697
Asedau anniriaethol sefydlog		4	12
		3,888	3,709
Asedau cyfredol			
Stociau		3	2
Masnach a symiau eraill i'w derbyn	13	151	269
Arian a chyfwerth arian parod	18	3,058	1,299
		3,212	1,570
Llai: Credydwy'r – symiau sy'n daladwy o fewn blwyddyn	14	(2,265)	(1,241)
Asedau Cyfredol Net		947	329
Cyfanswm asedau namyn dyledion cyfredol		4,835	4,038
Llai: Credydwy'r – symiau sy'n daladwy o fewn blwyddyn	15	(2,008)	(1,457)
Darpariaethau			
Goblygiadau buddion diffiniedig	17	(3,703)	(4,043)
Darpariaethau eraill	17	(228)	(234)
Cyfanswm rhymedigaethau net		(1,104)	(1,696)
Cronfeydd Wrth Gefn Anghyfyngedig			
Cyfrif Incwm a Gwariant		(1,104)	(1,696)
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig		(1,104)	(1,696)

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalen 24 i 45 a'u hawdurdodi i gael eu cyhoeddi gan y Corff Llywodraethol 2 Chwefror 2022 a'u llofnodi ar ei ran ar y dyddiad hwnnw gan:

Christian Mahoney
Cadeirydd



Mark Leighfield
Swyddog Cyfrifyddu



Coleg Catholig Dewi Sant

Datganiad o Lif Arian

	Nodiadau	2021 £'000	2020 £'000
Mewnlif arian o weithgareddau gweithredu			
Gwarged/(diffyg ariannol) am y flwyddyn		(241)	7
Addasiad ar gyfer eitemau heb arian parod			
Dibrisiad		422	359
Gostyngiad mewn stociau		(1)	2
(Cynnydd) yn nifer y dyledwyr		118	(118)
Cynnydd yn y credydwyr o fewn un flwyddyn		956	260
Cynnydd yn y credydwyr ar ôl un flwyddyn		0	
Costau pensiynau ariannol		55	42
Costau pensiynau namyn y cyfraniadau sy'n daladwy		433	228
Grantiau Cyfalaf Gohiriedig wedi'u rhyddhau i incwm		(210)	(136)
Addasiad ar gyfer gweithgareddau buddsoddi neu ariannu			
Incwm o fuddsoddiadau		(3)	(5)
Y llog sy'n daladwy		2	8
Colled wrth waredu asedau sefydlog		399	0
Llif arian net o weithgareddau gweithredu		1,930	647
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Incwm o fuddsoddiadau		3	5
Taliadau a wnaed i gaffael asedau diriaethol sefydlog		(1000)	(854)
Taliadau a wnaed i gaffael asedau anniriaethol sefydlog		(0)	()
Talebion grantiau		858	660
		(138)	(189)
Llif arian o weithgareddau ariannu			
Llog a dalwyd		(2)	(8)
Benthyciadau ansefydlog newydd		0	0
Ad-daliadau o'r symiau a fenthiciwyd		(31)	(37)
		(33)	(45)
Cynnydd mewn arian a chyfwerth arian parod yn ystod y flwyddyn		1,759	413
Arian a chyfwerth arian parod ar ddechrau'r flwyddyn	18	1,299	886
Arian a chyfwerth arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	18	3,058	1299
		1,759	413

Coleg Catholig Dewi Sant

Dadansoddiad o'r Colledion Net

Arian a chyfwerth arian parod	Ar 1 Awst 2020	Llif Arian	Newidiadau eraill nad ydynt yn rhai arian parod	Ar 31 Gorffennaf 2021
	£'000's	£'000's	£'000's	£'000's
Arian	1,298	1,759	0	3,057
Gorddrafft	0	0	0	0
Cyfwerth Arian Parod	0	0	0	0
	1,298	1,759	0	3,057
Benthyciadau				
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	47	0	(6)	41
Symiau sy'n ddyledus ar ôl 1 flwyddyn	181	0	(24)	156
	228	0	(31)	197
Cyfanswm	1,526	1,759	(31)	3,255

Coleg Catholig Dewi Sant

Nodiadau ar gyfer y Cyfrifon

1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu a thechnegau amcangyfrif

Defnyddiwyd y polisiau cyfrifyddu canlynol yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir yn berthnasol i'r datganiadau ariannol. Sefydlwyd y Gorfforaeth dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 at ddiben cynhaliadau Goleg Catholig Dewi Sant. Mae'r Coleg yn elusen wedi'i eithrio at ddiben Rhan 3 o'r Ddeddf Elusennau 2011. Sefydlwyd y Gorfforaeth yng Nghymru, a'r Swyddfa Gofrestredig ydy Coleg Catholig Dewi Sant, Heol Ty Gwyn, Penylan, Caerdydd, CF23 5QD.

Sail y paratoi

Paratowyd y datganiadau cyllidol hyn yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019, Cyfarwyddyd Cyfrifyddu'r Coleg ar gyfer 2020 i 2021 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 – "Y Safon Adrodd Ariannol cymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon" (FRS 102). Mae'r coleg yn endid er budd y cyhoedd ac felly wedi dilyn gofynion FRS 102 er budd y cyhoedd.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol i gydymffurfio â gofynion FRS 102, mae'n ofynnol i ddefnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu critigol penodol. Mae'n ofynnol hefyd i uwch reolwyr farnu wrth gymhwyso polisiau cyfrifyddu'r coleg.

Sail cyfrifyddu

Mae'r datganiadau cyllidol yn cael eu paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol.

Busnes gweithredol

Gosodir gweithgareddau'r Coleg, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio'i ddatblygiad a'i berfformiad yn y dyfodol, yn yr adroddiad strategol. Caiff sefyllfa ariannol y Coleg, ei lif arian, hylifedd, a'i fenthyciadau eu cyflwyno yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau ategol.

Mae'r Llywodraethwyr wedi ystyried effaith Cofid-19 ar y Coleg. Llwyddodd y Coleg i addasu ei ffyrdd o ddysgu i fod yn hyblyg rhwng dysgu wyneb yn wyneb a gwersi o bell ar-lein. Yn ychwanegol, parha'r buddsoddi mewn isadeiledd TG y Coleg i wynebu'r heriau hyn.

Yn 2020/21, gwnaeth y Coleg gyflawni gweithgareddau at 108.7% o'i darged ariannu. Mae'r coleg yn monitro'r ddemograffeg a gyhoeddir gan yr awdurdodau lleol y mae'n rhan ohono, ac mae'n ymwybodol y bydd cynnydd yn y nifer o ymadawyr ysgol dros y 10 mlynedd nesaf. Mae bloc addysgu newydd wedi'i gynllunio er mwyn addasu i'r twf mewn niferoedd myfyrwyr a ddisgwylir yn y blynyddoedd i ddod.

Ar hyn o bryd, mae gan y Coleg £197,000 o fenthyciadau heb eu talu gyda bancwyr yn ôl termau a drafodwyd yn 2016, sydd wedi'u diogelu gan dâl arnawf a sefydlog ar asedau'r Coleg. Bydd y benthyciad yn cael ei adnewyddu yn 2020-21 am 5 mlynedd arall, ar adeg ysgrifennu hyn, cafodd hwn ei gytuno mewn egwyddor gan Barclays. Mae rhagolygon a rhagamcanion y Coleg yn dangos y byddai'n gallu gweithredu o fewn y cyfleuster a'r cyfamodau cyfredol hyn hyd y gellir rhagweld.

Yn unol â hynny, mae gan y Coleg ddisgwyliad rhesymol bod ganddo'r adnoddau boddhaol i barhau â'i weithrediad hyd y gellir rhagweld, ac felly, byddai'n parhau i fabwysiadu busnes gweithredol wrth baratoi ar gyfer y Datganiadau Cyllidol.

Cydnabod Incwm

Arian Grant Refiniw

Model cyfrifeg gronidol yn ôl gofyn FRS 102 sy'n rhoi cyfrif am grantiau refeniw'r Llywodraeth yn cynnwys grantiau cylchol a grantiau eraill corff ariannu. Caiff grantiau cylchol corff ariannu eu mesur yn unol â'r

Coleg Catholig Dewi Sant

amcangyfrif gorau ar gyfer y cyfnod o'r hyn a dderbynnir ac yn dibynnu ar y ffrwd incwm penodol perthnasol. Fel arfer penderfynir ar yr incwm grant terfynol ar gasgliad y broses gysoni gyda'r corff ariannu ar ddiwedd y flwyddyn ac ar gasgliadau unrhyw archwiliad ariannu. Addasir unrhyw dangyflawni yn erbyn y gweithgaredd cynlluniedig hwn yn ystod y flwyddyn a'i adlewyrchu yn lefel y grant cylchol a nodir yn y cyfrif incwm a gwariant.

Cydnabyddir grantiau o ffynonellau anllywodraethol mewn incwm os oes gan y coleg hawl i'r incwm a bod amodau perthnasol i berfformiad wedi'u cyflawni. Gelwir incwm a dderbyniwyd cyn i amodau perthnasol i berfformiad gael eu cyflawni fel incwm gohiredig yn adran credydwyd ar y fantolen a'i gydnabod yn incwm ar ôl i'r amodau gael eu cyflawni.

Arian grant cyfalaf

Cyfalaf ydy grantiau cyfalaf y Llywodraeth, a'u dal fel incwm gohiredig a'u cydnabod fel incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased yn ôl dull cyfrifeg gronïadol FRS 102. Cydnabyddir grantiau cyfalaf eraill yn yr adran incwm pan fydd gan y coleg hawl i'r cyllid yn amodol ar gyflawni unrhyw amod perthnasol i berfformiad.

Incwm Ffioedd

Nodir incwm o ffioedd dysgu fel rhai gros o unrhyw wariant sydd ddim yn ddisgownt a'i gydnabod yn ystod y cyfnod y mae'n cael ei dderbyn.

Incwm Buddsoddiad

Cofnodir pob incwm o adneuon tymor byr yn y cyfrif incwm a gwariant yn ystod y cyfnod yr enillwyd yr incwm ar sail derbyniadau.

Trefniadau asiantaeth

Mae'r coleg yn gweithredu fel asiant wrth gasglu a thalu rhai arian cymorth dewisol. Caiff taliadau perthynol gan gyrff cyllido ac yna'r taliadau wedi hynny i fyfyrwyr eu heithrio o incwm a gwariant y coleg os yw'r risg yn isel i'r coleg neu sydd ddim ond yn cynnig budd economaidd isel ynghlwm â'r trafodion.

Cyfrifyddu ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth

Darperir buddion ôl-gyflogaeth i gyflogai'r coleg, yn bennaf gan Gynllun Pensiwn Athrawon (TPS) a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LPGS). Mae'r rhain yn gynlluniau buddion diffiniedig sy'n cael eu hariannu'n allanol a'u contractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth.

Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS)

Cynllun heb ei ariannu ydy'r TPS. Amcangyfrifir cyfraniadau i'r TPS er mwyn rhannu cost pensiynau dros oed gweithio'r cyflogai yn y coleg yn y fath fodd fel bod cyfradd y gost yn gymharol wastad dros gyfnod y gyflogres yn bresennol ac i'r dyfodol. Actiwariaid cymwys sy'n pennu'r cyfraniadau ar sail prisiant gan ddefnyddio dull darpar fuddion.

Mae'r TPS yn gynllun aml-gyflogwr ac mae digon o wybodaeth ar gael i gyfrifyddu budd diffiniedig. Felly, ystyrir TPS yn gynllun cyfraniad diffiniedig a'r cyfraniadau yn cael eu hystyried yn dreuliau yn y datganiad ariannol yn ystod y cyfnodau y mae'r cyflogai yn rhoi o'u gwasanaeth.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Caerdydd a'r Fro (LGPS)

Mae LGPS yn gynllun a ariennir. Mesurir asedau LGPS drwy ddefnyddio gwerthoedd cau teg. Mesurir rhwymedigaethau LGPS drwy ddefnyddio'r dull credyd o ragamcanu uned a'i ddisgowntio ar gyfradd gyfredol adenillion ar fond corfforaethol uchel ei ansawdd o gyfnod ac arian cyfwerth â'r rhwymedigaethau. Sefydlir y gwerthoedd actiwaraid o leiaf bob tair blynedd a'u diweddarau ar ddyddiad pob mantolen. Y symiau a nodwyd ar gyfer y gwarged gweithredu ydy'r costau gwasanaethu cyfredol a chostau cyflwyno cynlluniau, newid buddiannau, setliadau a chwtogiadau. Caiff y rhain eu cynnwys fel rhan o'r costau a wariwyd ar staff.

Caiff y llog net ar y buddion rhwymedigaethau/asedau net diffiniedig hefyd eu cydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ac mae'n cynnwys cost y llog ar y goblygiadau buddion diffiniedig a'r incwm llog ar asedau'r cynllun, wedi ei gyfrifo drwy luosi gwerth teg y cynllun ar gychwyn y cyfnod gyda'r raddfa a ddefnyddir fel disgownt y goblygiadau buddion. Caiff y gwahaniaeth rhwng yr incwm llog ar asedau'r cynllun a'r gwir adenillion eu cydnabod yn y costau llog a chostau ariannol eraill.

Caiff yr enillion a'r colledion eu cydnabod ar eu hunion yn yr enillion a'r colledion actiwaraid.

Coleg Catholig Dewi Sant

Buddion Cyflogaeth tymor byr

Caiff buddion cyflogaeth tymor byr, megis cyflogau a thâl gwyliau eu cydnabod fel gwariant o fewn y flwyddyn y mae'r cyflogai'n rhoi o'u gwasanaeth i'r coleg. Caiff unrhyw fuddion heb eu defnyddio eu cronni a'u mesur fel y swm ychwanegol mae'r coleg yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i'r hawliadau sydd heb eu defnyddio. Caiff buddion dibennu cyflogaeth eu cyfrifo ar gyfer adegau pan ystyrir bod y rhwymedigaeth yn bodoli.

Pensiynau gwell

Caiff gwir gost unrhyw welliannau pensiwn cyfredol ar gyfer cyn-aelodau staff eu talu gan goleg yn flynyddol. Bydd amcangyfrif o gost dybiedig unrhyw welliannau yn y dyfodol i bensiwn cyfredol cyn-aelod o staff yn cael ei gostio'n llawn i incwm y coleg yn y flwyddyn bydd yr aelod o staff yn ymddeol. Mewn blynyddoedd wedi hynny rhoddir y gost yn y ddarpariaeth yn y fantolen gan ddefnyddio'r daenlen pensiynau gwell sy'n cael eu darparu gan y cyrff ariannu.

Asedau nad ydyn nhw'n rhai cyfredol – Asedau diriaethol sefydlog

Caiff yr asedau diriaethol sefydlog eu nodi yn ôl y gost, llai'r dibrisiant cronedig a'r colledion diffygiant cronedig.

Tir ac Adeiladau

Mae'r tir a'r adeiladau a brynwyd ers 1 Ebrill 1993 wedi eu cynnwys yn ôl eu cost yn y fantolen. Ni chaiff tir rhyddddaliad ei ddibrisio. Caiff adeiladau rhydd-ddaliad eu dibrisio ar raddfa llinell syth, dros gyfnod eu hoes o fuddioldeb i'r coleg o 50 mlynedd. Caiff ailwampadau sy'n adfer buddion economaidd adeilad eu dibrisio dros gyfnod byrrach o rhwng 10 a 20 mlynedd.

Dydy tir ac adeiladau etifeddiwyd ar 1 Ebrill 1993 gan Gyngor Sir De Morgannwg a thir ac adeiladau eraill sy'n parhau'n eiddo i Archesgobaeth Caerdydd ddim wedi eu cynnwys yn y fantolen.

Lle bo tir ac adeiladau wedi eu prynu drwy grantiau penodol, maen nhw wedi eu gosod fel cyfalaf a'u dibrisio fel yr uchod. Mae'r grantiau cysylltiol wedi eu dangos mewn cyfrif incwm gohiriedig ymhlith y credydwy'r ac yn cael eu rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros gyfnod oes ddisgwyliedig yr ased dan sylw ar drefn systematig sy'n gyson â'r polisi dibrisiant. Caiff yr incwm gohiriedig ei ddyrannu rhwng y credydwy'r sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn a'r rhai dyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn.

Cynhelir adolygiad o'r diffygiant i ased sefydlog ei gynnal os bydd digwyddiad neu newid yn yr amgylchiadau'n dangos nad ydy'r swm sy'n cael ei gario ar gyfer unrhyw ased sefydlog yn un adferadwy.

Gwariant dilynol ar asedau sydd eisoes yn bodoli

Os gwariwyd yn sylweddol ar asedau diriaethol sefydlog ar ôl y pryniant yn y lle cyntaf, rhoddir y gost ar gyfrif yr incwm yn y cyfnod y digwyddodd, oni bai ei fod yn cynyddu darpar fuddion i'r coleg, ac yn yr achos hwnnw caiff ei ystyried fel cyfalaf a'i brisio ar y sail berthnasol.

Cyfarpar

Ystyrir cyfarpar sy'n costio llai na £1,000 fesul eitem yn wariant yn ystod cyfnod y cafwyd y cyfarpar. Caiff pob offer arall ei brisio fel cyfalaf yn ôl ei gost.

Dibrisir offer cyfalaf sy'n cael ei brisio yn ôl ei gost ar raddfa gyson o'r mis y prynwyd yr offer dros gyfnod gweddill ei oes economaidd ddefnyddiol fel a ganlyn:

- Cyfarpar cyffredinol 5 – 10 mlynedd
- Offer TG 5 mlynedd

Cynhelir adolygiad o unrhyw ddiffygiant i ased sefydlog os bydd digwyddiadau neu newid yn yr amgylchiadau'n nodi na ellir efallai adennill y gwerth sy'n cael ei gario ar y llyfrau ar unrhyw ased sefydlog. Ystyrir y diffyg rhwng gwerth sy'n cael ei gario yn y llyfrau ar asedau sefydlog a'u symiau ad-enilladwy yn ddiffygiant. Nodir colledion diffygiant yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Coleg Catholig Dewi Sant

Asedau Anghyffwrddadwy

Caiff asedau anghyffwrddadwy gwerth llai na £1000 fesul eitem unigol eu hystyried fel gwariant yng nghyfnod eu prynu.

Caiff pob ased anghyffwrddadwy arall ei brisio yn ôl ei gost. Caiff offer cyfalaf ei ddibrisio ar raddfa llinell syth o'r mis cafodd ei brynu dros gyfnod gweddill ei oes economaidd ddefnyddiol fel a ganlyn:

- Meddalwedd 5 mlynedd
- Arall 5 mlynedd

Costau Benthycia

Cydnabyddir costau benthycia fel gwariant yn ystod y cyfnod y mae'r benthyc yn digwydd.

Asedau ar brydles

Codir tâl o ran gweithredu prydles ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

Rhestrau Eiddo

Cofnodir rhestrau eiddo yn unol â'u cost. Lle bo'r galw, gwneir darpariaeth ar gyfer eitemau sy'n hynafol, yn rhy araf neu'n wallus.

Arian a chyfwerth arian parod

Mae arian yn cynnwys arian mewn llaw a hefyd blaendaliadau taladwy yn dilyn hawliad, a gorddrafftiau. Ystyrir blaendaliadau yn rhai taladwy yn dilyn hawliad os ydyn nhw ar gael yn ymarferol o fewn 24 awr heb gosb.

Ystyrir cyfwerth arian parod fel buddsoddiadau tymor-byr, hynod hylifol y gellir eu troi'n hawdd fod yn symiau o arian gydag ychydig iawn o risg iddyn nhw newid yn eu gwerth. Caiff buddsoddiad ei ystyried yn gyfwerth arian parod pan fydd iddyn nhw ddyddiad ad-dalu o dri mis neu lai o ddyddiad eu prynu.

Rhwymedigaeth ac ecwiti ariannol

Caiff rhwymedigaethau ac ecwiti ariannol eu dosbarthu yn ôl manylion goblygiadau cytundebol yr offeryn ariannol, yn hytrach na ffurf gyfreithiol yr offeryn ariannol.

Caiff pob benthyciad, buddsoddiad a blaendal tymor byr ym meddiant y Grŵp eu dosbarthu fel offerynnau ariannol sylfaenol yn unol â FRS 102. Cofnodir yr offerynnau hyn i gychwyn fel y pris trafodion llai costau unrhyw drafodion (cost hanesyddol). Mae FRS 102 yn mynnu bod offerynnau ariannol sylfaenol wedyn yn cael eu mesur fel cost wedi'i amorteiddio, fodd bynnag mae'r coleg wedi cyfrifo nad ydy'r gwahaniaeth rhwng y gost hanesyddol a'r un wedi'i amorteiddio ddim yn un materol berthnasol ac felly cofnodir yr offerynnau ariannol hyn ar y fantolen yn ôl y gost hanesyddol. Ni chyfrifir y disgownt ar fenthyciadau na buddsoddiadau sy'n daladwy nac yn ddyledus o fewn un flwyddyn.

Gwerth arian tramor

Cofnodir trafodion mewn arian tramor drwy ddefnyddio'r raddfa gyfnewid ar ddyddiad y trafodion. Caiff asedau ac ymrwymadau ariannol sydd mewn arian tramor eu dynodi yn ôl y raddfa gyfnewid ar ddiwedd y cyfnod ariannol, gyda'r holl wahaniaethau yn y graddfeydd cyfnewid yn cael eu nodi yn yr incwm o fewn y cyfnod maen nhw'n codi.

Treth

Ystyrir bod y coleg wedi pasio'r profion a nodir ym Mharagraff 1 Siediwl 6 Deddf Cyllid 2010 ac felly mae'n cwrdd â'r diffiniad o gwmni elusennol i ddibenion treth gorfforaethol y DU. Gan hynny, gall y cwmni fod wedi'i eithrio o drethiant o ran yr incwm a'r enillion cyfalaf a dderbyniwyd o fewn y categorïau sydd yn adrannau 478-488 o Ddeddf Treth Gorfforaethol 2010 neu Adran 256 o Ddeddf Trethu Enillion Trethadwy 1992, cyn belled a bod yr incwm neu enillion hynny'n cael eu defnyddio'n gyfan gwbl i ddibenion elusennol.

Coleg Catholig Dewi Sant

Nid yw'r coleg yn derbyn eithriad o'r fath o ran Treth Ar Werth, ac felly ni all ad-ennill y TAW a godir ar ei fewnbynnau. Caiff y TAW na ellir ei-ad-ennill ar y mewnbynnau eu cynnwys yng nghostau'r mewnbynnau hynny a'u hychwanegu i gost asedau diriaethol sefydlog os yn addas, lle bo'r mewnbynnau eu hunain yn asedau diriaethol sefydlog eu natur.

Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau os

- oes gan y coleg ymrwymiad cyfreithiol neu adeiladol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol
- ei bod yn debygol bydd angen trosglwyddo budd economaidd i setlo rhwymedigaeth, a hefyd
- y gellir amcangyfrif yn rhesymol beth ydy maint yr ymrwymiad.

Lle bo gwerth ariannol i'r amser yn faterol berthnasol, disgwylir bydd y swm fydd ei angen i setlo'r ymrwymiad yn cael ei gydnabod yn ôl ei werth presennol gan ddefnyddio graddfa disgownt cyn treth. Caiff dad-ddirwyn y disgownt ei gydnabod fel cost ariannol yn y datganiad o'r incwm cynhwysfawr yn y cyfnod mae'n digwydd.

Barnu wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu a ffynonellau allweddol ansicrwydd amcangyfrif

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn rhaid bod y rheolwyr wedi penderfynu ar y canlynol:

- Penderfynu a ydy'r prydles sydd gan y coleg naill ai fel prydlesydd neu fel daliwr prydles yn brydlesi gweithredol neu'n rhai ariannol. Mae'r penderfyniadau hyn yn dibynnu ar asesiad a ydy'r risgiau a buddion perchnogaeth wedi cael eu trosglwyddo oddi wrth y prydlesydd i'r daliwr prydles fesul prydles.
- Penderfynu a oes dangosyddion o ddiffygiant i asedau diriaethol y coleg.

Ffynonellau allweddol eraill o ansicrwydd amcangyfrif

- *Asedau diriaethol sefydlog*

Dibrisir asedau diriaethol sefydlog yn ystod eu hoes ddefnyddiol gan ystyried gwerth gweddilliol lle bo'n briodol. Asesir gwir oes yr asedau a'r gwerthoedd gweddilliol yn flynyddol a gallai amrywio yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Wrth ail-asesu oes asedau, ystyrir ffactorau megis arloesedd technolegol a chynnal rhaglenni. Wrth asesu gwerth gweddilliol ystyrir materion fel darpar gyflwr y farchnad, gweddill oes yr ased a'r gwerth a ragwelir o gael gwared ar yr ased.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gwerth cyfredol rhwymedigaethau buddion diffiniedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn dibynnu ar nifer o ffactorau ar sail tybiaethau actiwaraid gan ddefnyddio amrywiaeth o dybiaethau. Ymhlith y tybiaethau ar gyfer penderfynu ar gost net (incwm) pensiynau mae'r gyfradd ddisgownt. Bydd unrhyw newid yn y tybiaethau hyn a nodir yn nodyn 23, yn effeithio ar y swm ar gyfer pensiynau. Ar ben hyn, defnyddiwyd dull rollo ymlaen sy'n rhagamcanu canlyniadau o'r gwerth llawn diweddaraf ar sail tybiaethau actiwaraid ar 31 Mawrth 2016 gan yr actwari wrth brisio swm cost pensiynau 31 Gorffennaf 2021. Byddai unrhyw wahaniaethau rhwng y ffigurau y dull rollo ymlaen a'r prisiad ar sail tybiaethau actiwaraid yn effeithio ar swm y ddyled pensiwn.

Coleg Catholig Dewi Sant

2 Grantiau cyrff cyllidol

	2021 £'000	2020 £'000
Grantiau cylchol		
Grantiau cylchol NPFS Llywodraeth Cymru	6,510	5,054
Cyllid cylchol arall	677	208
Grantiau penodol		
Rhyddhau grantiau cyfalaf Llywodraeth Cymru	210	136
Grantiau eraill Llywodraeth Cymru	821	227
Cyfanswm	8,218	6,625

3 Ffioedd Dysgu a chytundebau addysg

	2021 £'000	2020 £'000
Ffioedd heb fod yn rhai'r Gymuned Ewropeaidd	0	18
Ffioedd Arholiad	2	17
Cyfanswm Ffioedd Dysgu	2	35
Cytundebau Addysg	210	186
Cyfanswm	212	221

4 Grantiau a chytundebau eraill

	2021 £'000	2020 £'000
Grantiau a chytundebau eraill	30	23
Cyfanswm	30	23

5 Incwm arall

	2021 £'000	2020 £'000
Arlwyo a pherswylfeydd	1	140
Gweithgareddau eraill sy'n creu incwm	16	7
Incwm amrywiol	0	26
Cyfanswm	17	173

6 Incwm Buddsoddiadau

	2020 £'000	2019 £'000
Llogau eraill a dderbyniwyd	3	5
Cyfanswm	3	5

Coleg Catholig Dewi Sant

7 Costau Staff

Roedd cyfartaledd nifer yr unigolion (gan gynnwys rheolwyr allweddol) a gyflogwyd gan y coleg yn ystod y flwyddyn, wedi ei nodi fel rhai cyfwerth ag amser llawn, fel a ganlyn:

	2021 Nifer	2020 Nifer
Staff addysgu	74	70
Staff heb fod yn addysgu	51	38
	125	108

Roedd nifer yr unigolion (gan gynnwys rheolwyr allweddol) a gyflogwyd gan y coleg ar ddiwedd y flwyddyn, fel a ganlyn:

	2021 Nifer	2020 Nifer
Staff addysgu	74	70
Staff heb fod yn addysgu	51	38
	125	108

Costau staff ar gyfer y rhai uchod

	2021 £'000	2020 £'000
Cyflogau	4,313	3,798
Costau Nawdd Cymdeithasol	432	371
Costau pensiynau eraill	1,360	1,043
Is-gyfanswm y gyflogres	6,105	5,212
Gwasanaethau staffio wedi'u contractio allan	37	55
	6,142	5,267
Costau ail-drefnu sylfaenol – heb gontractio	1	21
Cyfanswm costau staff	6,143	5,288

Personél Rheolaeth Allweddol

Y staff rheoli allweddol ydy'r unigolion hynny gyda'r awdurdod a'r cyfrifoldeb dros gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r coleg ac sy'n cael eu cynrychioli gan y Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth.

Enillion y staff rheoli allweddol, Swyddog Cyfrifyddu a staff eraill ar gyflogau uwch

	2021 Nifer	2020 Nifer
Dyma'r nifer o staff rheoli allweddol gan gynnwys y Swyddog Cyfrifyddu:	<u>2</u>	<u>2</u>

Coleg Catholig Dewi Sant

Roedd niferoedd y staff rheoli allweddol oedd yn derbyn enillion, heb fod yn gyfraniadau pensiwn ac yswiriant cenedlaethol cyflogwyr, ond yn cynnwys taliad mewn nwyddau, fel a ganlyn yn yr ystod a nodir:

	Staff Rheoli Allweddol		Staff arall	
	2021 Nifer.	2020 Nifer.	2021 Nifer.	2020 Nifer.
£60,001 to £65,000 p.a.	-	-	1	2
£65,001 to £70,000 p.a.	-	1	2	-
£70,001 to £75,000 p.a.	1	-	-	-
£125,001 to £130,000 p.a.	1	1	-	-
	<u>2</u>	<u>2</u>	<u>2</u>	<u>2</u>

Caiff y digollediaid i staff rheoli allweddol eu dosbarthu fel a ganlyn:

	2021 £'000	2020 £'000
Cyflogau	226	201
Yswiriant Cenedlaethol y Cyflogwr	29	25
	<u>255</u>	<u>226</u>
Cyfraniadau pensiwn	53	46
Cyfanswm yr ennillion	<u>308</u>	<u>272</u>

Ni chafodd unrhyw symiau oedd yn ddyledus i staff rheoli allweddol eu hepgor yn y flwyddyn, ac nid oedd unrhyw drefniant aberthu cyflog ar waith.

Mae'r digollediaid ar y dudalen flaenorol yn cynnwys y symiau'n daladwy i'r Swyddog Cyfrifyddu (sydd hefyd y swyddog sy'n cael ei dalu fwyaf) sef:

	2021 £'000	2020 £'000
Cyflogau	<u>130</u>	<u>130</u>
Cyfraniadau pensiwn	<u>31</u>	<u>30</u>

Adolygir cydnabyddiaeth y Swyddog cyfrifyddu yn flynyddol yn dilyn gwerthusiad gan y Corff Llywodraethol ac sy'n cael ei feicnodi yn erbyn sefydliadau tebyg.

Heblaw am y Swyddog cyfrifyddu, ni dderbyniodd aelodau'r Corff Llywodraethol nac aelodau o staff unrhyw daliad gan sefydliad oni bai am ad-daliad ar gyfer teithio a lwfans a geid yn ystod eu dyletswyddau.

Coleg Catholig Dewi Sant

Perthynas taliad y Pennaeth/Swyddog Cyfrifyddu, a'r tâl cydnabyddiaeth a fynegwyd fel lluosog

	2021	2020
Cyfanswm tâl cydnabyddiaeth y Pennaeth fel lluosog canolrif yr holl staff	<u>4.5</u>	<u>5.2</u>

8 Treuliau gweithredu eraill

	2021 £'000	2020 £'000
Adrannau Addysgu a Dysgu	170	98
Gwasanaethau cymorth addysgu a dysgu	269	301
Gwasanaethau cymorth eraill	36	33
Gwasanaethau gweinyddu a chanolog	475	338
Gwariant addysgol cyffredinol	81	53
Costau adeiladau	665	442
Arlwyo	4	78
Cyfanswm	1,700	1,343

Mae treuliau gweithredu eraill yn cynnwys:

	2021 £'000	2020 £'000
Tâl i'r archwiliwyr:		
Archwiliad datganiadau cyllidol	19	17
Archwiliad Mewnol	15	11
Gwasanaethau eraill a ddarparwyd gan yr archwiliwyr	4	4
Colledion ar waredu asesiadau diriaethol sefydlog	-	

9 Llogau a chostau cyllidol eraill

	2021 £'000	2020 £'000
Ar fenthyciadau banc, gorddrafftiau, a benthyciadau eraill:	2	8
	2	8
Cost gyllidol pensiynau (nodyn 23)	55	42
Cyfanswm	57	50

10 Trethiant

Nid yw'r Corff Llywodraethol yn credu ei fod yn agored i dalu unrhyw dreth gorfforaeth o ganlyniad i unrhyw weithgaredd a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn.

Coleg Catholig Dewi Sant

11 Asedau diriaethol sefydlog

	Adeiladau	Cyfarpar cyfrifiadurol	Cyfarpar arall	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£,000's
Cost neu brisant					
Ar 1 Awst 2020	5,336	934	1036	0	7,306
Ychwanegiadau	194	374	117	315	1,000
Gwarediadau	(1,091)	(375)	(357)	(-)	(1,823)
Ar 31 Gorffennaf 2021	4,439	933	796	315	6,483
Dibrisiad					
Ar 1 Awst 2020	2,241	617	751	0	3,608
Tâl am y flwyddyn	175	153	85	0	414
Diddymu o ran gwarediadau	(692)	(374)	(356)	(0)	(1,423)
Ar 31 Gorffennaf 2021	1,724	395	480	0	2,599
Llyfrwerth net ar 31 Gorffennaf 2021	2,715	537	316	315	3,883
Llyfrwerth net ar 31 Gorffennaf 2020	3,095	317	285	0	3,697

Nid yw'r tir a'r adeiladau etifeddwyd ar 1 Ebrill 1993 oddi wrth Gyngor Sir De Morgannwg na'r tir ac adeiladau sy'n parhau i fod yn eiddo i Archesgobaeth Caerdydd wedi eu cynnwys yn y fantolen. Mae rhai asedau diriaethol sefydlog penodol wedi cael eu hariannu drwy ffynonellau Llywodraeth Cymru, a chaiff llyfrwerth net yr asedau hyn eu harddangos uchod. Pe byddai i'r asedau hyn gael eu gwerthu, byddai raid i'r coleg naill ai ildio enillion y gwerthiant i Lywodraeth Cymru neu eu defnyddio yn unol â'r memorandwm ariannol gyda Llywodraeth Cymru.

Nid yw'r tir a'r adeiladau etifeddwyd ar 1 Ebrill 1993 oddi wrth Gyngor Sir De Morgannwg na'r tir ac adeiladau sy'n parhau i fod yn eiddo i Archesgobaeth Caerdydd wedi eu cynnwys yn y fantolen. Mae rhai asedau diriaethol sefydlog penodol wedi cael eu hariannu drwy ffynonellau Llywodraeth Cymru, a chaiff llyfrwerth net yr asedau hyn eu harddangos uchod. Pe byddai i'r asedau hyn gael eu gwerthu, byddai raid i'r coleg naill ai ildio enillion y gwerthiant i Lywodraeth Cymru neu eu defnyddio yn unol â'r memorandwm ariannol gyda Llywodraeth Cymru.

12 Asedau anghyffwrddadwy sefydlog

	Cyfanswm
	£,000's
Cost neu brisant	
Ar 1 Awst 2020	121
Ychwanegiadau	0
Gwarediadau	(86)
Ar 31 Gorffennaf 2021	35
Dibrisiad	
Ar 1 Awst 2020	108
Tâl am y flwyddyn	8
Diddymu o ran gwarediadau	(86)

Coleg Catholig Dewi Sant

Ar 31 Gorffennaf 2021	30
Llyfrwerth net ar 31 Gorffennaf 2021	5
Llyfrwerth net ar 31 Gorffennaf 2020	12

13 Swm derbyniadwy drwy fasnachu ac eraill

	2021 £'000	2020 £'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn y flwyddyn:		
Symiau derbyniadwy drwy fasnachu	5	1
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	146	268
Cyfanswm	151	269

14 Credydwy: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn

	2021 £'000	2020 £'000
Benthyciadau a gorddrafftiau banc	41	228
Symiau derbyniadwy drwy fasnachu	178	338
Credydwy'r eraill (Cylluniau Pensiwn Athrawon a Llywodraeth Leol)	151	95
Croniadau ac incwm gohiriedig	1,457	395
Incwm gohiriedig – grantiau cyfalaf y Llywodraeth	210	136
Incwm gohiriedig – grantiau reiniw y Llywodraeth	228	49
Cyfanswm	2,265	1,241

15 Credydwy: symiau sy'n ddyledus ar ôl un flwyddyn

	2021 £'000	2020 £'000
Benthyciadau banc	156	0
Incwm gohiriedig – grantiau cyfalaf y Llywodraeth	1,852	1,457
Cyfanswm	2,008	1,457

Coleg Catholig Dewi Sant

16 Dyledion i'w had-dalu

(a) Benthyciadau a gorddrafftiau Banc:

Bank loans and overdrafts are repayable as follows:

	2021 £'000	2020 £'000
Mewn blwyddyn neu lai	41	228
Rhwng un a dwy flynedd	41	0
Rhwng dwy a phum mlynedd	115	0
Ymhen pum mlynedd neu fwy	0	0
Cyfanswm	197	228

17 Darpariaethau

	Rhwymedigaethau buddiannau diffiniedig £'000	Pensiynau lefel uwch £'000	Cyfanswm £'000
Ar 1 Awst 2020	4,043	234	4,277
Gwariant yn ystod y cyfnod	(210)	(10)	(220)
Symudiad yn ystod y cyfnod	(130)	4	(126)
Ar 31 Gorffennaf 2021	3,703	228	3,931

Mae rhwymedigaethau buddiannau diffiniedig yn cyfeirio at rwymedigaethau dan aelodaeth y coleg o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ceir rhagor o fanylion yn Nodyn 23.

Dyma'r prif dybiaethau ar gyfer y cyfrifiadau hyn:

	2021	2020
Chwyddiant prisiau	2.60%	2.20%
Graddfa disgownt	1.7%	2.20%

18 Arian a chyfwerth arian parod

	Ar 1 Awst 2020 £'000	Llif Arian £'000	Ar 31 Gorffennaf 2021 £'000
Arian a chyfwerth arian parod	1,299	1,759	3,058
Cyfanswm	1,299	1,759	3,058

Coleg Catholig Dewi Sant

19 Rhwymedigaethau Prydles

Ar 31 Gorffennaf, roedd gan y coleg y taliadau a ganlyn fel isafsymiau tâl prydles dan brydlesi gweithredol na ellir eu canslo:

	2021 £'000	2020 £'000
Isafsymiau tâl prydlesi sy'n ddyledus yn y dyfodol		
I'w talu mewn cyfnod heb fod yn fwy na blwyddyn	20	25
Yn fwy na blwyddyn ond heb fod yn fwy diweddar na phum mlynedd	48	63
Cyfanswm y taliadau prydles sy'n ddyledus	68	88

Cyfanswm y taliadau prydles a gydnabuwyd fel treuliau yn 2021 oedd £20,146

20 Offerynnau Ariannol

	2021 £'000	2020 £'000
Asedau ariannol		
Asedau ariannol wedi eu cyfrifo ar gostau wedi eu hamorteiddio	3,063	1,300
Rhwymedigaethau ariannol		
Rhwymedigaethau ariannol wedi eu cyfrifo ar gostau wedi eu hamorteiddio	525	661

Asedau ariannol sy'n offerynnau dyledion wedi eu cyfrifo ar gostau wedi eu hamorteiddio yn cynnwys dyledwyr heb fod yn cynnwys rhagdaliadau ac arian parod a chyfwerth arian parod.

Mae rhwymedigaethau ariannol wedi eu cyfrifo ar gostau wedi eu hamorteiddio'n cynnwys credydwyr masnachu, symiau benthyciadau'n ddyledus gan bartïon cysylltiedig â chredydwyr eraill

21 Cynlluniau wrth gefn

Does dim cynlluniau wrth gefn.

22 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod riportio

Doedd dim digwyddiadau ar ôl y cyfnod riportio.

23 Ymrwymadau buddion wedi'u diffinio

Mae gweithlu'r coleg yn aelodau o ddau brif gynllun buddiannau ôl-gyflogaeth: Cynllun Pensiynau Athrawon TPS (Teachers' Pension Scheme England and Wales) ar gyfer staff academiaidd a chysylltiol; a hefyd cynllun pensiwn Llywodraeth Leol Caerdydd a'r Fro (LGPS) i staff heb fod yn addysgwyr, ac yn cael ei reoli gan Awdurdod Lleol Dinas a Sir Caerdydd. Mae'r ddau yn gynlluniau buddiannau diffiniedig ar gyfer mwy nag un cyflogwr.

Caiff costau'r pensiynau eu hasesu yn unol â chyngor actiwariad annibynnol cymwys. Gwnaed y prisiad diweddaraf o'r TPS ar 31 Mawrth 2016 ac o'r LGPS 31 Mawrth 2016.

Coleg Catholig Dewi Sant

Cyfanswm cost y pensiynau am y flwyddyn	£'000	2021 £'000	£'000	2020 £'000
Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS): taliadau a wnaed		740		605
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol				
Y cyfraniadau a wnaed	209		179	
Taliad FRS 102 (28)	443		237	
Taliad i'r datganiad o Incwm Cymhwysfawr		652		416
Taliad pensiwn ychwanegol i'r Datganiad o Incwm Cymhwysfawr		4		9
Cyfanswm cost y pensiynau am y flwyddyn		1,396		1,030

Doedd dim cyfraniadau'n daladwy i'r cynllun ar 31 Gorffennaf 2021 (2020: £95,000).

Cynllun Pensiwn Athrawon

Mae'r cynllun 'Teachers' Pension Scheme' (TPS) yn gynllun statudol, budd-dal ddiffiniedig ar sail cyfraniadau sy'n cael ei reoli gan Reoliadau Pensiwn Athrawon 2010 ac, o 1 Ebrill 2014, gan Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Athrawon 2014. Mae'r rheoliadau hyn yn weithredol ar gyfer athrawon mewn ysgolion a sefydliadau addysgol eraill. Mae'n aelodaeth awtomatig i athrawon a darlithwyr llawn-amser, o 1 Ionawr 2007, a hefyd yn awtomatig i athrawon a darlithwyr mewn swyddi rhan-amser yn dilyn eu penodi neu newid contract. Gall athrawon a darlithwyr dynnu'n ôl o fod yn aelodau o'r cynllun TPS.

Cafodd yr adolygiad actiwaraid diweddaraf o'r TPS ei gynnal ar 31 Mawrth 2019. Cyhoeddwyd yr adroddiad prisiant gan yr Adran Addysg (yr Adran) yn Ebrill 2020. Adroddodd y prisiad gyfanswm rhwymedigaethau'r cynllun (pensiynau sy'n cael eu talu ar hyn o bryd ac amcangyfrif cost buddion yn y dyfodol) am wasanaeth hyd at y dyddiad effeithiol o £218 biliwn, ac asedau tybiannol (amcangyfrif o gyfraniadau yn y dyfodol ynghyd â'r buddsoddiadau tybiannol a ddeler ar y dyddiad prisio) o £198 biliwn sy'n rhoi diffyg tybiannol o'r gorffennol o £22 biliwn.

O ganlyniad, gosodwyd graddfa newydd cyfraniad y cyflogwr yn 23.68% o'r cyflog pensiynadwy o fis Medi 2019 ymlaen (o'i gymharu â 16.48% yn ystod 2018/19). Cytunodd Llywodraeth Cymru i dalu cyfraniad grant cyflogwr i bensiynau athrawon ar gyfer y costau ychwanegol yn ystod blwyddyn academiaidd 2019-20.

Ceir copi llawn o'r adroddiad ar brisiant a'r ddogfennaeth ategol ar wefan y Cynllun Pensiwn Athrawon.

Cost y pensiwn a dalwyd i TPS yn ystod y flwyddyn £740,491 (2019: £604,715)

Doedd dim cyfraniadau'n daladwy i'r cynllun ar 31 Gorffennaf 2021.

FRS 102 (28)

Dan ddiffiniadau a nodir yn FRS 102 (28.11), mae TPS yn gynllun pensiwn aml-gyflogwr. Ni all y coleg nodi beth ydy ei siâr o'r asedau ac ymrwymadau gwaelodol sydd yn y cynllun.

Oherwydd hyn, mae'r coleg wedi manteisio ar yr eithriad sydd yn FRS 102 ac wedi cofnodi ei gyfraniadau i'r cynllun fel pe byddai'n gynllun cyfraniadau-diffiniedig. Uchod, mae'r coleg wedi cofnodi'r wybodaeth sydd ar gael am y cynllun a'r goblygiadau i'r coleg o ran y graddfeydd cyfraniadau a ragwelir.

Coleg Catholig Dewi Sant

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae'r LGPS yn gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio, gydag asedau'n cael eu cadw mewn cyfrifon ar wahân a'i weinyddu gan Awdurdod Lleol Dinas a Sir Caerdydd. Roedd cyfanswm y cyfraniadau a wnaed ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2021 yn £443,488, gyda chyfanswm cyfraniad y cyflogwr yn £209,512 a chyfraniadau'r gweithlu'n £75,172. Mae'r graddfeydd cyfraniadau a gytunwyd ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn 17.6% i gyflogwyr ac amrediad o 5.5% hyd at 12.5% ar gyfer y cyflogai, yn ddibynnol ar gyflog.

Prif Ragdybiaethau'r Actiwari

Mae'r wybodaeth isod yn seiliedig ar brisiant llawn yr actiwari o'r gronfa ar 31 Mawrth 2016 wedi ei ddiweddarau hyd at 31 Gorff 2021 gan actiwari annibynnol cymwysedig:

	At 31 Gorff 2021	At 31 Gorff 2020
Graddfa cynnydd mewn cyflogau	3.60%	3.30%
Cynnydd yn y pensiynau yn y dyfodol	2.60%	2.30%
Graddfa disgownt ar gyfer ymrwymadau'r cynllun	1.70%	1.40%
Rhagdybiaeth Chwyddiant (CPI)	2.60%	2.30%

Mae'r rhagdybiaethau marwolaeth cyfredol yn cynnwys lwfans digonol ar gyfer gwelliannau mewn cyfraddau marwolaeth yn y dyfodol. Mae'r disgwyliadau oes dybiedig ar oed ymddeol o 65 mlwydd fel a ganlyn:

	At 31 Gorff 2021 blynyddoedd	At 31 Gorff 2020 blynyddoedd
<i>Wrth ymddeol heddiw</i>		
Dynion	22.3	22.20
Menywod	24.7	24.60
 <i>Wrth ymddeol ymhen 20 mlynedd</i>		
Dynion	23.3	23.20
Menywod	26.1	26.00

Mae'r swm sydd wedi ei gynnwys yn y fantolen o ran cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio fel a ganlyn:

	2021 £'000	2020 £'000
Gwerth teg asedau'r cynllun	4,919	3,993
Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	(8,618)	(8,036)
Pensiynau net (rhwymedigaethau) (Nodyn 17)	(3,699)	(4,043)

Coleg Catholig Dewi Sant

Mae'r symiau a ddynodir yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr o safbwynt y cynllun fel a ganlyn:

	2021 £'000	2020 £'000
Symiau wedi'u cynnwys yn y costau staff		
Costau cyfredol gwasanaethau	653	400
Cyfanswm	653	400
 Costau ariannu		
Llogau net sy'n daladwy	55	42
Cyfanswm	55	42
 Symiau a ddynodir yn yr Incwm Cynhwysfawr Arall		
Adenillion ar yr asedau cynllun pensiwn	713	8
Colledion brofwyd drwy ymrwymadau buddion wedi'u diffinio	(125)	(1,770)
Symiau a ddynodir yn yr Incwm Cynhwysfawr Arall	588	(1,762)

Symudiadau yn y buddion net wedi'u diffinio (ymrwymadau) yn ystod y flwyddyn	2021 £'000	2020 £'000
Buddion net wedi'u diffinio (ymrwymadau)/asedion yn y cynllun ar 1 Awst	(4,043)	(2,006)
Symudiadau yn y flwyddyn:		
Costau cyfredol y gwasanaethau	(653)	(400)
Cost blaenorol gwasanaeth	(0)	(16)
Cyfraniadau'r cyflogwyr	214	182
Llog net ar y buddion (ymrwymadau) wedi'u diffinio	(55)	(42)
Cynnydd/(colledion) actiwaraidd	838	(1,762)
Buddion (ymrwymadau) net wedi'u diffinio ar 31 Gorff	(3,699)	(4,043)

Coleg Catholig Dewi Sant

Cysoniad o'r Asedau a'r Ymrwymadau

	2021 £'000	2020 £'000
Newid yng ngwerth presennol y goblygiadau buddion wedi'u diffinio		
Goblygiadau buddion wedi'u diffinio ar gychwyn y cyfnod	8,036	5,812
Costau cyfredol y gwasanaeth	653	400
Costau blaenorol gwasanaeth	0	16
Cost llogau	112	127
Cyfraniadau cyfranogion y Cynllun	76	64
Profi (cynnydd) a cholledion y goblygiadau buddion wedi'u diffinio	(125)	
		1,770
Amcangyfrif o'r buddion a dalwyd	(134)	(153)
Goblygiadau buddion wedi'u diffinio ar ddiwedd y cyfnod	8,618	8,036

Cysoni'r Asedau

Fair value of plan assets at start of period	3,997	3,807
Llog ar asedau'r cynllun	57	85
Enillion ar asedau'r cynllun	713	8
Cyfraniadau'r cyflogwr	210	182
Cyfraniadau cyfranogwyr y cynllun	76	64
Amcangyfrif o'r buddion a dalwyd	(134)	(153)
Fair value of plan assets at end of period	4,919	3,993

24 Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddiwedd y cyfnod

Ni chanfuwyd unrhyw drafodion y dylid eu datgelu fel trafodion partïon cysylltiedig.

Nid oes unrhyw Lywodraethwyr wedi derbyn treuliau, tâl neu daliadau wedi eu hepgor oddi wrth y coleg neu ei is-gwmnïau yn ystod y flwyddyn (2020: Dim un).

Coleg Catholig Dewi Sant

25 Symiau a dalwyd fel asiant

Cronfeydd cymorth i ddysgwyr

	2021 £'000	2020 £'000
Gweddill a ddygwyd ymlaen	0	0
Grantiau Llywodraeth Cymru	181	89
	<u>181</u>	<u>89</u>
Dosbarthwyd i fyfyrwyr	(180)	(88)
Costau gweinyddol	(1)	(1)
Gweddill heb wario ar 31 Gorffennaf	<u>0</u>	<u>0</u>

I fyfyrwyr yn unig y mae grantiau'r Gronfa Ariannol wrth Gefn (Financial Contingency Fund) ar gael. Yn y mwyafrif o achosion, bydd y coleg yn gweithredu fel asiant i'w talu. Dan yr amgylchiadau hyn, caiff y grantiau a thaliadau cysylltiedig felly eu heithrio o'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.